Rhif ymchwil gymdeithasol: 30/2026

Dyddiad cyhoeddi: 25/02/2026

# Synthesis o dystiolaeth yn ymwneud â phenderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant ar gyfer plant rhwng 9 mis a 2 oed

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83745-164-7

Synthesis o dystiolaeth yn ymwneud â phenderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant ar gyfer plant rhwng 9 mis a 2 oed.

Awdur: Maddison Wright

Adroddiad Ymchwil Llawn: Wright, M. (2026). Synthesis o dystiolaeth yn ymwneud â phenderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant ar gyfer plant rhwng 9 mis a 2 oed. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 30/2026.

Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/penderfyniadau-rhieni-ynglyn-gofal-plant-ar-gyfer-plant-rhwng-9-mis-2-oed

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid safbwyntiau Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil Plant a Theuluoedd

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Research.ChildrenAndFamilies@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau ..... 2

Geirfa 3

1. Cyflwyniad ..... 5

1.1. Cefndir ..... 5
1.2. Diben yr adolygiad ..... 6
1.3. Cwmpas a dull ..... 6

2. Methodoleg ..... 7

2.1. Dull ..... 7
2.2. Y strategaeth chwilio a chwiliadau peilot ..... 8
2.3. Meini prawf cynnwys ac eithrio ..... 8
2.4. Canlyniadau chwilio a sgrinio ..... 9

3. Canfyddiadau ..... 15

3.1. Fforddiadwyedd gofal plant ..... 15
3.2. Cael gafael ar ofal plant ..... 16
3.2.1. Argaeledd a chyfyngiadau ymarferol ..... 17
3.2.2. Diffyg hyblygrwydd gofal plant ffurfiol ..... 19
3.2.3. Cymhlethdod gweinyddol ..... 20
3.2.4. Prosesau ymgeisio cymhleth ..... 21
3.3. Gwerthoedd, credoau a dewisiadau rhieni ..... 23
3.3.1. Manteision datblygiadol ymddangosiadol ..... 23
3.3.2. Ymddiriedaeth, diwylliant a chysylltiad mewn lleoliadau gofal plant ..... 25
3.3.3. Hoffter o ofal plant anffurfiol ..... 28

4. Cyfyngiadau ac ymchwil yn y dyfodol ..... 31

5. Casgliadau ..... 32

6. Adran cyfeirnod ..... 33

# Rhestr o dablau

Tabl 1: Mathau o lenyddiaeth a gynhwyswyd yn yr adolygiad, 2015 i 2025 ........................ 11

Tabl 2: Dosbarthiad daearyddol yr astudiaethau a gynhwyswyd yn yr adolygiad, 2015 i 2025 ........................ 11

Tabl 3: Astudiaethau a grwpiwyd yn ôl perthnasedd i blant rhwng 9 mis a 2 oed, 2015 i 2025 ........................ 13

# Geirfa

**ADY**

Anghenion dysgu ychwanegol.

**Grant Cymorth Ychwanegol**

Ffrwd gyllido a ddarperir o dan Gynnig Gofal Plant Cymru er mwyn sicrhau bod plant cymwys ag anghenion cymorth ychwanegol yn gallu cael gafael ar ofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar sail gyfartal â'u cyfoedion.

**Grant Gofal Plant**

Mae'r grant hwn ar gael i rieni sydd wedi cofrestru ar gwrs addysg uwch. Fe'i gweinyddir gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

**Cynnig Gofal Plant Cymru**

Cynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n rhoi hyd at 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant i rieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 a 4 oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

**Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar**

Fframwaith Llywodraeth Cymru sy'n dwyn ynghyd bolisïau, strategaethau a chanllawiau i ategu datblygiad, llesiant a dysgu plant 0 a 5 oed. Mae'n hyrwyddo dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn – sef dull sy'n integreiddio chwarae, gofal ac addysg gynnar – gan gydnabod pwysigrwydd cydberthnasau, hawliau ac amgylcheddau ymatebol. Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y termau 'Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar' ac 'Addysg a Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar' oherwydd cydnabyddir mai 'Addysg a Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar' yw'r term a ffefrir mewn rhai astudiaethau y cyfeirir atynt.

**Dechrau'n Deg**

Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n cynorthwyo teuluoedd â phlant o dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig. Fel rhan o'r gwaith o ehangu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yn raddol, mae'n anelu at gynnig gofal plant a ariennir i bob plentyn 2 oed yng Nghymru.

**Swyddi, Addysg a Hyfforddiant (JET)**

Mae'r rhaglen swyddi, addysg a hyfforddiant yn cynnig cymorth gyda ffioedd gofal plant i bobl â chynllun cyflogaeth ffurfiol yn Awstralia.

**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**

Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru.

**Poblogaeth, Ymyriadau, Cymaryddion a Chanlyniadau (a elwir hefyd yn PICO)**

Fframwaith strwythuredig a ddefnyddir yn bennaf mewn ymarfer seiliedig ar dystiolaeth i lunio cwestiynau ymchwil penodol ac atebadwy. Mae'n helpu i bennu'r elfennau hollbwysig sy'n perthyn i gwestiynau clinigol neu gwestiynau polisi er mwyn llywio chwiliadau llenyddiaeth a chynorthwyo i syntheseiddio tystiolaeth.

**Arolwg o Iechyd, Heneiddio ac Ymddeol yn Ewrop (a elwir hefyd yn SHARE)**

Cronfa ddata amlddisgyblaethol a thrawsgenedlaethol sy'n cynnwys microdata'n ymwneud ag iechyd, statws economaidd, a rhwydweithiau cymdeithasol a theuluol unigolion 50 oed neu hŷn. Cynhelir SHARE ar draws nifer o wledydd Ewrop ac mae'n darparu data hydredol sy'n ategu'r gwaith o lunio ymchwil a pholisïau sy'n ymwneud â heneiddio, ymddeol a systemau iechyd.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Cefndir

Mae gofal plant i blant rhwng 9 mis a 2 oed yn hollbwysig o ran ategu datblygiad cynnar, gan alluogi rhieni i weithio a chan hyrwyddo canlyniadau teg i deuluoedd (Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru 2024; Yr Adran Addysg 2025; Bucelli a McKnight 2022). Yng Nghymru, caiff gofal plant ei siapio gan 2 raglen hollbwysig, sef: Cynnig Gofal Plant Cymru, sy'n darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir i rieni sy'n gweithio a rhieni mewn addysg a hyfforddiant a chanddynt blant 3 i 4 oed; a Dechrau'n Deg, sy'n cynnig 12.5 awr o ofal plant a ariennir bob wythnos i blant cymwys 2 i 3 oed.

Mae datblygiadau polisi diweddar wedi ehangu cyrhaeddiad Dechrau'n Deg yn fawr yng Nghymru. Yng Ngham 2 yr ehangu, a lansiwyd ym mis Ebrill 2023, cafodd darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg ei hymestyn y tu hwnt i'r codau post a oedd yn gymwys yn wreiddiol. Mewn datganiad ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £25 miliwn yn ychwanegol yn ystod 2025 i 2026 er mwyn cynorthwyo i ehangu mwy fyth ar y rhaglen, gan alluogi Cymru i gynnig "[d]arpariaeth gyffredinol o ofal plant i bob plentyn 2 oed" yn y pen draw.

Canolbwyntiodd Cam 2 ar ddarparu gofal plant o'r radd flaenaf i blant 2 oed, ac fe'i hategwyd gan £46 miliwn ar draws 2023 i 2024 a 2024 i 2025. Ers lansio'r cam hwn, dengys y data diweddaraf y llwyddwyd i ragori ar y targed gan gynnig lleoedd i fwy na 15,100 o blant, a bod mwy nag 11,100 o blant wedi gwneud yn fawr o leoedd, yn cynnwys mwy na 2,300 mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Yn 2024 i 2025 yn unig, fe wnaeth mwy nag 80% o blant cymwys wneud yn fawr o'u lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg pan ehangwyd y rhaglen (Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol 2025).

Yn Lloegr, caiff gofal plant a ariennir ei ddarparu eisoes i blant iau, er na roddir hyn ar waith yn gyffredinol. Ers mis Medi 2024, mae rhieni cymwys sy'n gweithio a chanddynt blant rhwng 9 mis a 3 oed yn Lloegr wedi gallu cael 15 awr o ofal plant a ariennir bob wythnos, ac o fis Medi 2025 cynigiwyd yr hawl i gael 30 awr (Yr Adran Addysg 2024b, Yr Adran Addysg 2023).

Mae datblygiadau polisi, fel ehangu gofal plant Dechrau'n Deg, yn adlewyrchu ymrwymiad cynyddol i wella mynediad at ofal plant a ariennir yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y nodir yng nghanfyddiadau'r adolygiad hwn o'r dystiolaeth, mae'r defnydd a wneir o ofal plant ffurfiol yn dal i fod yn anghyson, ac mae nifer o deuluoedd yn dewis dibynnu ar ofal anffurfiol neu'n dewis gohirio ymhél â gofal ffurfiol. Mae hi'n hanfodol inni ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau rhieni er mwyn sicrhau y bydd modd i ddarpariaethau gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ddiwallu anghenion teuluoedd a phlant.

## 1.2. Diben yr adolygiad

Bwriad yr adolygiad cyflym hwn o'r dystiolaeth yw archwilio'r dystiolaeth sy'n ymwneud â ffactorau hollbwysig a all ddylanwadu ar benderfyniadau rhieni ynglŷn â defnyddio gofal plant ffurfiol ar gyfer plant rhwng 9 mis a 2 oed. Yn yr adolygiad, syntheseiddiwyd llenyddiaeth a fodolai eisoes yn y DU a ledled y byd er mwyn pennu themâu, nodi pethau sy'n atal ac yn galluogi defnydd o ofal plant ffurfiol, a llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau yng Nghymru yn y dyfodol. Nid rhagweld penderfyniadau rhieni yw'r nod; yn hytrach, y nod yw cyflwyno trosolwg thematig o'r sylfaen dystiolaeth gyfredol, ynghyd â phennu meysydd lle gellir cyfiawnhau ymchwil bellach a sylw pellach i bolisïau.

## 1.3. Cwmpas a dull

Pennodd yr adolygiad 6 thema, yn cynnwys fforddiadwyedd, mynediad ac argaeledd, manteision datblygiadol ymddangosiadol, ymddiriedaeth, diwylliant a chysylltiad a dewisiadau gofal anffurfiol. Yn yr adolygiad hwn, trefnir a chyflwynir y themâu hyn ar ffurf 3 thema gyffredinol, sef:

1. fforddiadwyedd gofal plant
2. cael gafael ar ofal plant
3. gwerthoedd, credoau a dewisiadau rhieni

Mae'r astudiaethau a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn yn cwmpasu cyfnod o 10 mlynedd, rhwng 2015 a 2025, ac maent yn defnyddio amrywiaeth o fethodolegau, yn cynnwys arolygon ar raddfa fawr, ymchwil ansoddol ac adroddiadau polisi.

Er y bwriadwyd i'r adolygiad roi blaenoriaeth i dystiolaeth yn ymwneud â chyd-destun Cymru, oherwydd bylchau yn yr wybodaeth penderfynwyd cynnwys canfyddiadau a oedd yn deillio o wledydd eraill y DU yn ogystal â data rhyngwladol a fydd, yn y pen draw, yn helpu i gynnig mewnwelediadau cymharol. Rhoddir sylw arbennig i astudiaethau sy'n archwilio profiadau teuluoedd â phlant o dan 3 oed; ond mae rhai astudiaethau'n cwmpasu oedrannau ehangach, lle caiff y canfyddiadau sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn eu tynnu.

# 2. Methodoleg

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn fel rhan o interniaeth ddoethurol dros gyfnod o 3 mis yn Llywodraeth Cymru ac fe'i comisiynwyd er mwyn darparu mewnwelediadau amserol yn ymwneud â'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau rhieni ynglŷn â defnyddio gofal plant ffurfiol ar gyfer plant rhwng 9 mis a 2 oed. Yn yr adran hon, nodir y dull a roddwyd ar waith i bennu, dewis a dadansoddi llenyddiaeth berthnasol, yn cynnwys y meini prawf cynnwys, y strategaeth chwilio a'r dulliau syntheseiddio thematig a ddefnyddiwyd.

## 2.1. Dull

Aethpwyd ati ymlaen llaw i ddewis dull adolygiad cyflym o'r dystiolaeth er mwyn pennu a syntheseiddio tystiolaeth gyfredol a pherthnasol. Mae adolygiadau cyflym yn syntheseiddio gwybodaeth mewn modd sy'n symleiddio neu'n eithrio agweddau ar brosesau adolygu systematig er mwyn cynhyrchu tystiolaeth mewn modd amserol (Hamel et al 2021). Yn ôl Grŵp Dulliau Adolygiadau Cyflym Cochrane, caiff adolygiadau cyflym eu defnyddio'n aml i fynd i'r afael â chwestiynau a materion brys a ddaw i'r amlwg ac yr ystyrir bod ganddynt flaenoriaeth uchel (Garritty et al 2021). Ymhellach, fel y nodir yn y Llyfr Magenta (2021), mae asesiadau cyflym o'r dystiolaeth yn ddefnyddiol ar gyfer cwmpasu tystiolaeth sy'n bodoli eisoes, o fewn amserlen fer. O ystyried cyfnod cyfyngedig yr interniaeth, roedd y fethodoleg hon yn ymarferol ac yn briodol. Arweiniodd at broses adolygu strwythuredig a thryloyw, gan sicrhau ar yr un pryd bod y dystiolaeth wedi cael ei thrin a'i syntheseiddio hyd at safon uchel.

Y cwestiwn ymchwil oedd pa ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau rhieni ynglŷn â'r gofal plant a ddefnyddir ar gyfer plant o dan 2 oed. Crëwyd fframwaith PICO (Poblogaeth, Ymyriadau, Cymaryddion a Chanlyniadau) i lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ymchwil a'r meini prawf cynnwys ac eithrio mewn perthynas ag ateb y cwestiwn ymchwil hwn. Er na ddefnyddiwyd y fframwaith hwn i gynhyrchu'r cwestiwn, helpodd i sicrhau bod y broses chwilio'n gyson ac yn gysyniadol strwythuredig drwy'r amser. Isod, disgrifir yn fras y fframwaith PICO a ddefnyddiwyd:

- poblogaeth: rhieni â phlant o dan 2 oed
- ymyriadau: penderfyniadau ynglŷn â gofal plant ar gyfer plant o dan 2 oed. Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau
- cymaryddion: Cymru, lle mae gofal plant a ariennir ar gael i blant 2 oed a hŷn, o gymharu â Lloegr, lle caiff gofal plant a ariennir ei gyflwyno i blant 9 mis oed a hŷn
- canlyniadau: ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau rhieni, yn cynnwys, costau, mynediad, argaeledd, dewisiadau o ran gofal plant ffurfiol/gofal plant anffurfiol, ymddiriedaeth, credoau diwylliannol

## 2.2. Y strategaeth chwilio a chwiliadau peilot

Ar ôl cadarnhau’r termau chwilio, cynhaliwyd chwiliad peilot o’r llenyddiaeth, yn bennaf trwy ddefnyddio Google Scholar, er mwyn cwmpasu’r llenyddiaeth i baratoi’r termau chwilio. Rhannwyd y canlyniadau peilot hyn gyda thîm Plant, Teuluoedd a Gofal Plant Llywodraeth Cymru, ac yna fe’u cadarnhawyd ar gyfer eu rhannu gyda Gwasanaethau’r Llyfrgell yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Dyma’r termau chwilio terfynol:

- ‘barriers, cost and access’
- ‘childcare preferences’
- ‘socio-cultural factors’

Cynhaliodd Gwasanaethau’r Llyfrgell 3 chwiliad strwythuredig gan ddefnyddio’r termau chwilio a’r strategaethau a ddarparwyd gan dîm Gwasanaethau’r Llyfrgell, a oedd yn cynnwys:

- dau chwiliad a gynhaliwyd gan awdur yr adroddiad yn ymwneud â rhwystrau gofal plant, costau gofal plant, mynediad at ofal plant, a dewisiadau mewn perthynas â gofal plant
- chwiliad a gynhaliwyd gan aelod o Wasanaethau’r Llyfrgell yn ymwneud â’r ffactorau sosioddiwylliannol sy’n dylanwadu ar benderfyniadau rhieni ynglŷn â defnyddio gofal plant

Defnyddiwyd y cronfeydd data canlynol:

- Adnoddau Electronig Llywodraeth Cymru
- ProQuest (casgliad o gronfeydd data’n ymwneud â’r gwyddorau cymdeithasol)
- Web of Sicence
- Scopus
- Google Scholar (fel prif adnodd ar gyfer chwilio am draethodau ymchwil doethurol posibl)

## 2.3. Meini prawf cynnwys ac eithrio

Roedd y cam chwilio cychwynnol yn cynnwys gwaith pen desg ar gyfer chwilio trwy lenyddiaeth lwyd (sef ymchwil a gynhyrchwyd y tu allan i sianeli cyhoeddi academaidd traddodiadol) ac ymchwil a fodolai eisoes, a oedd yn hysbys i Lywodraeth Cymru a chyd-destun polisi ehangach y DU. Yna, cynhaliwyd chwiliadau strwythuredig er mwyn canfod llenyddiaeth lwyd a llenyddiaeth academaidd ychwanegol. Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau daearyddol ffurfiol yn ystod y broses chwilio; parhawyd i ganolbwyntio’n bennaf ar lenyddiaeth o’r DU, a roddai sylw i Gymru. Dangosodd y canlyniadau mai cyfyngedig oedd y dystiolaeth ymchwil yn ymwneud â Chymru yn benodol, ar wahân i astudiaethau’n ymwneud â’r DU a oedd yn digwydd cynnwys Cymru. Cafodd astudiaethau rhyngwladol eu

cynnwys os oeddynt yn cynnig mewnwelediadau trosglwyddadwy yn ymwneud â phenderfyniadau rhieni neu systemau gofal plant y blynyddoedd cynnar. Pan oedd yr astudiaethau a'r canfyddiadau'n llai perthnasol i gyd-destun Cymru a'r DU, cawsant eu hadolygu'n fwy gochelgar. Ymhellach, cyfyngwyd y llenyddiaeth i lenyddiaeth Saesneg.

Yn yr un modd, er mwyn sicrhau ansawdd a pherthnasedd y ffynonellau, cynhwyswyd yn yr arolwg ddeunyddiau o gyfnodolion ysgolheigaidd ac adroddiadau a gomisiynwyd gan adrannau'r llywodraeth a melinau trafod. Ar ôl cynnal chwiliadau cychwynnol, mireiniwyd y canlyniadau ymhellach ar sail maes a phwnc yr ymchwil. Er enghraifft, wrth gynnal chwiliad trwy ddefnyddio Web of Science, y prif gategorïau a ddewiswyd oedd astudiaethau'n ymwneud â theuluoedd, cymdeithaseg, addysg ac ymchwil addysgol, agweddau amlddisgyblaethol ar y dyniaethau ac economeg. Yn yr un modd, wrth chwilio trwy wahanol gronfeydd data fel ProQuest, cynhwyswyd y pynciau canlynol er mwyn esgor ar y canlyniadau mwyaf perthnasol: agweddau, canfyddiadau, gweithwyr, plentyndod, llunio polisïau, addysg y blynyddoedd cynnar, plant ifanc, datblygiad plant, ffactorau economaidd-gymdeithasol, gwneud penderfyniadau a bywyd teuluol.

Er mwyn inni allu sicrhau perthnasedd a rheoli cwmpas yr adolygiad o fewn yr amserlen gyfyngedig, cyfyngwyd y chwilio i lenyddiaeth a gyhoeddwyd yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf (sef 2015 i 2025). Mae'r dull hwn yn cyd-fynd ag arferion gorau'n ymwneud â methodoleg adolygiadau cyflym, a'r bwriad oedd blaenoriaethu gan adlewyrchu datblygiadau diweddar mewn polisïau ac ymddygiadau rhieni. Trwy gyfyngu'r adolygiad i'r ddeng mlynedd ddiwethaf, mae'n debygol ein bod wedi eithrio astudiaethau cynharach a allai fod yn berthnasol (er enghraifft Pungello a Kurtz-Costes (1999); Wheelock a Jones (2002); Anderson et al (2002)). Ond ystyriwyd bod hyn yn briodol o gofio'r cyfyngiadau amser a'r angen i ganolbwyntio ar y dystiolaeth ddiweddaraf.

Ymhellach, yn sgil y penderfyniad i sgrinio llenyddiaeth y ddeng mlynedd ddiwethaf, bu modd i'r adolygiad cyflym hwn gofnodi'r tirlun esblygol sy'n perthyn i bolisïau gofal plant y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Mae rhaglenni fel Cynnig Gofal Plant Cymru a Dechrau'n Deg yn ganolog i'r tirlun hwn. Treialwyd Cynnig Gofal Plant Cymru yn 2017 ac fe'i cyflwynwyd ledled y wlad yn 2019. Mae Dechrau'n Deg wedi bodoli ers 2007, ond yn ddiweddar cafodd yr elfen 'gofal plant' ei hehangu y tu hwnt i'r ardaloedd cod post gwreiddiol. Mae ehangu gofal plant a ariennir yn sgil y rhaglenni hyn yn arwydd o newid mawr o ran hygyrchedd, perthnasedd diwylliannol ac ansawdd gofal plant y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Mae 'cyfnod sgrinio 10 mlynedd' yn sicrhau bod yr arolwg yn cofnodi'r cyd-destun a fodolai cyn i'r rhaglenni hyn gael eu hehangu, ynghyd â'r effeithiau cynnar, gan gyflwyno sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer deall y modd y gall polisïau Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar ddewisiadau rhieni yn y blynyddoedd cynnar.

## 2.4. Canlyniadau chwilio a sgrinio

Datblygwyd strategaeth chwilio strwythuredig er mwyn dod o hyd i lenyddiaeth a oedd yn berthnasol i benderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant ar gyfer plant rhwng 9 mis a 2 oed, gan ganolbwyntio'n benodol ar Gymru. Defnyddiwyd gweithrediadau Boole (sef geiriau fel

AND, OR a NOT sy'n cyfuno neu'n eithrio allweddeiriau er mwyn mireinio canlyniadau chwilio) i gyfuno cysyniadau hollbwysig fel "childcare access", "barriers", "cost", a "parental choice". Yna, chwiliwyd am y cysyniadau hyn ochr yn ochr â thermau a oedd yn ymwneud ag oedran penodol ("9 months" OR "infants" OR "babies" OR "toddlers" OR "1-year old" OR "2-year-old" OR "under 2"), a hidlyddion daearyddol ("Wales" OR "Welsh") ac ("United Kingdom" OR "UK" OR "England" OR "Scotland" OR "Northern Ireland" OR "Wales").

Yn ystod y broses chwilio, daeth sawl her i'r amlwg o ran dod o hyd i lenyddiaeth a oedd yn canolbwyntio ar benderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant ar gyfer plant rhwng 9 mis a 2 oed. Er enghraifft, trwy ddefnyddio'r termau "babies" ac "infants", yn aml cafwyd canlyniadau a oedd yn ymwneud â gofal newyddenedigol, gofal geni cyn pryd neu fwydo ar y fron, sef pynciau a oedd y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn. Yn yr un modd, gwelwyd bod y term "childcare" yn gorgyffwrdd yn aml, gan esgor ar astudiaethau a oedd yn canolbwyntio ar gyd-destunau a lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn hytrach nag ar addysg a gofal y blynyddoedd cynnar a dewisiadau rhieni. Ar sail eu teitlau, roedd hi'n ymddangos bod rhai astudiaethau'n berthnasol, yn enwedig y rhai a oedd yn cyfeirio at gyfranogiad mamau yn y farchnad lafur; ond ar ôl eu harchwilio ymhellach, gwelwyd bod y mwyafrif o'r astudiaethau hyn yn ymwneud yn bennaf â chanlyniadau economaidd, megis newidiadau mewn cyflogaeth, yn hytrach na'r rhesymau a oedd wrth wraidd dewisiadau ynglŷn â gofal plant.

Arweiniodd chwiliad cychwynnol, lle defnyddiwyd termau a llinynnau rhagddiffiniedig, at ddod o hyd i 30 o astudiaethau. Ymhellach, cynhaliodd tîm y llyfrgell chwiliad annibynnol, gan ddod o hyd i 41 o astudiaethau. Ar ôl sgrinio eu perthnasedd a'u data, cafwyd gwared â 23 o astudiaethau (cafwyd gwared ag 8 astudiaeth oherwydd eu dyddiad cyhoeddi a chafwyd gwared â 15 gan nad oeddynt yn ddigon perthnasol), gan adael 18 o astudiaethau ar gyfer eu hystyried ymhellach. Ar ôl adolygu'r astudiaethau a oedd yn weddill, darganfuwyd bod 5 ohonynt yn fersiynau dyblyg o rai y daethpwyd o hyd iddynt yn y chwiliad cychwynnol. Felly, cyfrannodd chwiliad y llyfrgell 13 o astudiaethau unigryw a pherthnasol at yr adolygiad. Mae'r adolygiad hwn o'r dystiolaeth, felly, wedi'i seilio ar 43 o astudiaethau unigryw.

Er mwyn sicrhau trylwyredd, profwyd amryfal amrywiadau o bob ymholiad chwilio trwy ddefnyddio cronfeydd data academaidd, yn cynnwys Web of Science, ProQuest a Scopus. Arweiniodd y dull hwn at gynhyrchu ffynonellau ychwanegol gyda phob cam mireinio. Dros amser, dechreuodd y canlyniadau gydgyfarfod, gan ddangos bod y strategaeth chwilio wedi llwyddo i gofnodi'r llenyddiaeth berthnasol a oedd ar gael o fewn y paramedrau a ddiffiniwyd.

Roedd y 43 astudiaeth o dan sylw yn cynnwys ymchwil academaidd ac ymchwil gymhwysol. Nodir y mathau penodol hyn o lenyddiaeth yn y tabl isod:

**Tabl 1: Mathau o lenyddiaeth a gynhwyswyd yn yr adolygiad, 2015 i 2025**

| Math o lenyddiaeth | Nifer yr astudiaethau |
|---|---|
| Erthyglau mewn cyfnodolion, a adolygwyd gan gymheiriaid | 25 |
| Adroddiadau gan y llywodraeth / adroddiadau a gomisiynwyd gan y llywodraeth | 9 |
| Adroddiadau ymchwil annibynnol | 5 |
| Traethodau ymchwil PhD | 3 |
| Nodiadau briffio | 1 |

Roedd y 43 astudiaeth a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn yn cwmpasu amrywiaeth eang o gyd-destunau daearyddol, gan roi pwyslais cryf ar y DU a'r gwledydd datganoledig. Yn benodol, mae'r llenyddiaeth yn cwmpasu'r gwledydd a nodir yn Nhabl 2 isod. Mewn achosion pan welwyd bod rhyw astudiaeth yn cwmpasu mwy nag un wlad, cawsant eu cyfrif o dan bob gwlad berthnasol yn y dadansoddiad o astudiaethau yn ôl daearyddiaeth. O ganlyniad, efallai fod y cyfansymiau fesul gwlad yn fwy na 43.

**Tabl 2: Dosbarthiad daearyddol yr astudiaethau a gynhwyswyd yn yr adolygiad, 2015 i 2025**

| Gwlad | Nifer yr astudiaethau |
|---|---|
| Y DU | 4 |
| Lloegr | 10 (yn cynnwys 1 cydastudiaeth yn ymwneud â Lloegr a'r Alban) |
| Cymru | 6 |
| Yr Alban | 4 (yn cynnwys 1 cydastudiaeth yn ymwneud â Lloegr a'r Alban) |
| Unol Daleithiau America | 4 |
| Awstralia | 3 |
| Yr Almaen | 2 |
| Gwlad Belg | 2 |
| Iwerddon | 2 |
| Seland Newydd | 2 |
| 'Ewrop' | 2 |
| 'Ewrop + y DU' | 1 |
| Y Swistir | 1 |
| Malta | 1 |

O blith yr astudiaethau a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn, nifer cymharol fach a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar Gymru. Roedd y mwyafrif o'r astudiaethau'n archwilio penderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant yn Lloegr neu'r Alban, gyda un astudiaeth yn ymdrin â'r ddwy wlad ar y cyd. Mae'r dosbarthiad anghyson hwn yn datgelu bwlch nodedig yn y sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud â chyd-destun Cymru. O ystyried y tirlun polisi, y ffactorau diwylliannol, a'r modelau darpariaeth gofal plant a geir yng Nghymru, efallai fod diffyg ymchwil benodol o'r fath yn cyfyngu ar y gallu i gymhwyso canfyddiadau ehangach y DU at deuluoedd yng Nghymru. O'r herwydd, yn amlwg mae angen cynnal rhagor o ymchwil sy'n canolbwyntio ar benderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant yng Nghymru, er mwyn sicrhau y bydd modd ymwreiddio datblygiadau polisi a chynllun gwasanaethau mewn tystiolaeth sy'n berthnasol i'r cyd-destun.

Ymhellach, wrth barhau i chwilio trwy'r llenyddiaeth, daeth yn amlwg mai tystiolaeth gyfyngedig a oedd ar gael ar gyfer yr ystod oedran 'rhwng 9 mis a 2 oed', a gwelwyd bod nifer o astudiaethau'n grwpio ystod eang o oedrannau; mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i adrodd am ffiniau oedran penodol. Er mwyn helpu i ddeall cwmpas y llenyddiaeth a adolygwyd, grwpiwyd yr astudiaethau'n 2 gategori ar sail y modd roeddynt yn cydweddu â'r oedran 9 mis i 2 oed. Defnyddir y dull grwpio hwn i ategu tryloywder yn y broses adolygu, yn ogystal â thynnu sylw at y bwlch tystiolaeth mewn perthynas ag ymchwil sy'n canolbwyntio'n benodol ar yr ystod oedran 9 mis i 2 oed.

Mae colofn un yn cynnwys astudiaethau a oedd naill ai'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar blant rhwng 9 mis a 2 oed neu a oedd yn cwmpasu ystod oedran ychydig yn ehangach (0 i 5), lle roedd y canlyniadau a oedd yn berthnasol i'r ystod oedran o dan sylw yn gwbl amlwg a lle bu modd tynnu data perthnasol. Mae'r ail golofn yn cynnwys astudiaethau ag ystod oedran ehangach o lawer (0 i 10 neu 0 i 15), nad oeddynt yn canolbwyntio'n benodol ar blant iau na 2 oed, ond a oedd yn cynnwys mewnwelediadau perthnasol, neu ganfyddiadau penodedig yn ymwneud â phlant rhwng 9 mis a 2 oed. Yn yr achosion hyn, fel y trafodir yn yr adran 'canfyddiadau', cafodd y canfyddiadau perthnasol eu tynnu a'u defnyddio gyda gofal priodol. Roedd hyn yn cynnwys adolygu data oed-benodol trwy gyfrwng tablau neu adrannau (os oeddynt ar gael). O blith y 43 astudiaeth, roedd 39 yn cynnwys gwybodaeth am y plant; yn achos y 4 astudiaeth a oedd yn weddill, gellir dweud eu bod yn ddarnau o lenyddiaeth a oedd yn cyflwyno canfyddiadau cyd-destunol, neu'n adolygiadau.

**Tabl 3: Astudiaethau a grwpiwyd yn ôl perthnasedd i blant rhwng 9 mis a 2 oed, 2015 i 2025**

| Astudiaethau a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar blant rhwng 9 mis a 2 oed | Astudiaethau ag ystodau oedran ehangach, ond a gynhwysai ganfyddiadau a oedd yn berthnasol i blant rhwng 9 mis a 2 oed |
|---|---|
| 1. Yr Adran Addysg (2025) | 1. Etherington et al (2025) |
| 2. Bosire et al (2025) | 2. Ni Luanaigh et al (2024) |
| 3. LaValle et al (2024) | 3. Gambaro et al (2024) |
| 4. Yr Adran Addysg (2024) | 4. Doorley et al (2023) |
| 5. Collischon et al (2024) | 5. Crossfield et al (2023) |
| 6. Berlinski et al (2020) | 6. Wilson – Smith et al (2022) |
| 7. Mendizabal-Espinosa et al (2024) | 7. Brewer et al (2022) |
| 8. Maes et al (2023) | 8. Mhathúna a Fhionnlaoich (2021) |
| 9. Benison a Sin (2023) | 9. Hughes a Jones (2021) |
| 10. Lane a Lewis (2023) | 10. White-Tennant (2021) |
| 11. Mollidor et al (2022) | 11. Biegel et al (2021) |
| 12. Arad Research (2021) | 12. Bouchard et al (2021) |
| 13. Ferguson et al (2020) | 13. Bordone et al (2020) |
| 14. Rutigliano (2020) | 14. Dallimore (2016) |
| 15. Zangger a Widmer (2020) | - |
| 16. Airey et al (2020) | - |
| 17. Chen a Bradbury (2019) | - |
| 18. Hutchinson (2019) | - |
| 19. Mumford et al (2019) | - |
| 20. Degotardi et al (2018) | - |
| 21. Simon et al (2017) | - |
| 22. McLean et al (2017) | - |
| 23. Sollars (2016) | - |
| 24. Skattebol (2016) | - |
| 25. DiGessa et al (2016) | - |

Er ein bod wedi dod o hyd i nifer fawr o astudiaethau a oedd yn cyd-fynd yn agos ag ystod oedran yr adolygiad hwn, sef rhwng 9 mis a 2 oed, mae'n bwysig nodi bod nifer o'r astudiaethau hyn yn cwmpasu ystodau oedran ehangach (0 i 4 a 0 i 5), ac nad aethant ati'n gyson i ddadgyfuno canfyddiadau ar gyfer plant rhwng 9 mis a 2 oed. Mae hyn yn cyfyngu

ar ein gallu i ddwyn casgliadau oed-benodol mewn perthynas â phenderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant ar gyfer plant o dan 2 oed. Mewn gwrthgyferbyniad, mae astudiaethau sy'n canolbwyntio'n agosach ar blant rhwng 9 mis a 2 oed yn parhau i fod yn gymharol gyfyngedig, a thynnwyd nifer o fewnwelediadau hollbwysig o astudiaethau a oedd yn ymwneud ag ystodau oedran ehangach, lle cafodd y canfyddiadau perthnasol eu tynnu. Mae hyn yn dangos y bwlch tystiolaeth mewn ymchwil benodol sy'n canolbwyntio ar brofiadau ac anghenion rhieni â phlant o dan 2 oed.

Mae'r ddibyniaeth ar astudiaethau sy'n ymwneud â grŵp oedran ehangach yn dangos bod angen tystiolaeth fanylach a mwy oed-benodol ar gyfer llywio polisïau ac arferion yn ymwneud â darpariaethau gofal plant y blynyddoedd cynnar, yn enwedig mewn perthynas â hygyrchedd, fforddiadwyedd a dewisiadau rhieni ar gyfer plant o dan 2 oed.

# 3. Canfyddiadau

Yn yr adran hon, cyflwynir canlyniadau hollbwysig yr adolygiad cyflym o'r dystiolaeth. Trefnir y canlyniadau ar ffurf themâu'n ymwneud â 3 maes cyffredinol, sef: fforddiadwyedd gofal plant; cael gafael ar ofal plant; a gwerthoedd, credoau a dewisiadau rhieni. Mae'r themâu cyffredinol hyn yn adlewyrchu'r ffactorau yr adroddir amdanynt yn fwyaf cyson mewn perthynas â dylanwadu ar benderfyniadau rhieni ar gyfer plant rhwng 9 mis a 2 oed. Mae'r canfyddiadau'n defnyddio cymysgedd o lenyddiaeth sy'n deillio o'r DU a gweddill y byd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar astudiaethau sy'n berthnasol i gyd-destun Cymru pan fo astudiaethau o'r fath ar gael.

## 3.1. Fforddiadwyedd gofal plant

Fforddiadwyedd yw un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol – ac un o'r ffactorau yr adroddir amdano yn fwyaf cyson – mewn perthynas â llywio penderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant ar gyfer plant rhwng 9 mis a 2 oed. Mae tystiolaeth sy'n deillio o amrywiaeth eang o astudiaethau o'r DU ac astudiaethau rhyngwladol yn dangos bod y costau mawr sydd ynghlwm wrth ofal plant ffurfiol yn peri i rieni ohirio defnyddio darpariaethau gofal plant (neu leihau eu defnydd o ofal plant), yn ogystal â pheri iddynt addasu eu cynlluniau cyflogaeth neu adael y gweithlu'n gyfan gwbl.

Darganfu data diweddar gan yr Adran Addysg (2025) fod 34% o rieni a arolygwyd yn Lloegr yn cael anhawster i dalu am ofal plant – y gyfran fwyaf ers 2014. Hefyd, nododd yr Adran Addysg (2024) fod 18% o deuluoedd â phlant 0 i 4 oed yn methu â fforddio gofal plant o gwbl, a nodwyd mai'r gost oedd y prif rwystr.

Gwelir bod cost gofal plant yn broblem gyffredinol ledled y byd. Yn Seland Newydd, wrth astudio mamau â phlant rhwng 9 mis a 2 oed, darganfu Benison a Sin (2023) nad oedd bron i 3% o'r mamau o dan sylw yn gweithio, a hynny gan nad oedd modd iddynt gael gafael ar ofal plant fforddiadwy. Yn yr astudiaeth, amcangyfrifir bod y mamau wedi colli enillion sylweddol, yn enwedig mamau Māori; mae hyn yn tynnu sylw at y modd y gall darpariaeth gyfyngedig ar gyfer plant o dan 2 oed waethygu anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes a lleihau cyflogaeth ymhlith mamau – rhywbeth sy'n adleisio pryderon y sonnir amdanynt gan rieni yn y DU. Aeth yr astudiaeth ymlaen i fesur yr effaith economaidd sydd ynghlwm wrth fethu â fforddio gofal plant, gan amcangyfrif bod mamau'n colli $116 miliwn y flwyddyn mewn cyflogau oherwydd diffyg gofal plant hygyrch.

Gyda'i gilydd, awgryma'r canfyddiadau hyn fod fforddiadwyedd yn dal i gyfyngu'n fawr ar fynediad at ofal plant, gan esgor ar oblygiadau pellgyrhaeddol i lesiant teuluoedd a chyfranogiad yn y farchnad lafur.

Mae rhwystrau o ran fforddiadwyedd yn effeithio'n arbennig ar deuluoedd â phlant o dan 3 oed – sef teuluoedd nad ydynt, yn aml, yn gymwys i gael oriau a ariennir ar gyfer pob plentyn. Yng Ngogledd Iwerddon, er enghraifft, darganfu Chapman a Fitzpatrick (2025) fod costau gofal plant amser llawn yn fwy na thaliadau morgeisi neu daliadau rhent i nifer o

aelwydydd, gan gyfateb i fwy na 30% o'u hincwm canolrifol. Oherwydd hyn, nid oedd gofal plant ffurfiol yn ariannol ymarferol, yn enwedig i famau â phlant ifanc iawn. Dengys astudiaethau eraill fod fforddiadwyedd yn rhyngweithio â ffactorau eraill; er enghraifft, dangosodd Collischon et al (2024) fod polisïau 'arian am ofal' yn yr Almaen yn annog teuluoedd incwm isel i ddewis gofal yn y cartref neu ofal anffurfiol, gan atgyfnerthu patrymau gofalu rhyweddol a lleihau cyfranogiad mamau yn y farchnad lafur.

Ymddengys hefyd fod fforddiadwyedd yn ysgogi'r defnydd o ofal anffurfiol. Ar draws gwledydd, mae astudiaethau, fel astudiaeth Crossfield et al (2023) yn Lloegr ac astudiaeth White-Tennant (2021) yn yr Unol Daleithiau, yn dangos bod teuluoedd yn troi at deidiau a neiniau a chyfeillion gan fod gofal plant ffurfiol (fel meithrinfeydd a chanolfannau) yn rhy ddrud, er eu bod yn ffafrio'r trefniadau hynny.

Mae'r pryderon hyn ynglŷn â fforddiadwyedd yn nodwedd gyffredin yn nhystiolaeth yr adolygiad hwn. Mewn astudiaeth dull cymysg a gynhaliwyd gan Skattebol (2016), archwiliwyd y modd mae teuluoedd difreintiedig yn Awstralia yn gwneud penderfyniadau gofal plant ynglŷn â defnyddio gwasanaethau addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar. Ar sail 131 o gyfweliadau ansoddol gyda mamau yn bennaf, darganfu'r astudiaeth fod teuluoedd yn aml yn gohirio gofal plant ffurfiol hyd nes iddynt allu diwallu anghenion sylfaenol, fel tai a chyflogaeth. Hyd yn oed pan mae cymorthdaliadau, fel y cynllun Swyddi, Addysg a Hyfforddiant, yn lleihau costau gofal plant yn fawr, mae diffyg ymwybyddiaeth o'r cynllun a'r cymhlethdodau o ran cael gafael arno yn cyfyngu ar ei ddefnydd.

Gyda'i gilydd, mae'r astudiaethau a adolygir yn y fan hon yn tynnu sylw at fater hollbwysig: heb gymorth ariannol hygyrch a sylweddol, mae nifer o rieni yn methu â defnyddio, neu'n gyndyn o ddefnyddio, gofal plant ffurfiol yn ystod blynyddoedd cynnar eu plant. Yn ogystal ag effeithio ar gyflogaeth y mamau a chyfleoedd datblygiadol y plant, mae'r cyfyngiad hwn yn atgyfnerthu patrymau ehangach mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol. Er mwyn creu canlyniadau tecach i deuluoedd – ac i'r gymdeithas yn gyffredinol – mae hi'n hanfodol inni fynd i'r afael â'r bwlch hwn.

## 3.2. Cael gafael ar ofal plant

Mynediad at ofal plant ac argaeledd gofal plant yw'r ffactorau mwyaf cyffredin sy'n dylanwadu ar benderfyniadau rhieni ynglŷn â defnyddio gofal plant ffurfiol ar gyfer plant o dan 3 oed. Mae tystiolaeth sy'n deillio o astudiaethau yn y DU ac astudiaethau rhyngwladol yn dangos bod rhieni'n sôn yn fynych am anawsterau o ran dod o hyd i ofal plant ffurfiol addas sy'n gweddu i'w lleoliad, eu horiau gwaith neu eu hanghenion penodol. Ymhellach, mae nifer o rieni'n wynebu rhwystrau strwythurol a rhwystrau o ran gwybodaeth wrth lywio trwy systemau gofal plant, megis meini prawf cymhwystra aneglur, cynlluniau cymorth tameidiog a chyfathrebu gwael. Yn aml, mae'r heriau hyn yn gohirio gofal plant ffurfiol neu'n atal rhieni rhag defnyddio gofal plant ffurfiol, ni waeth be fo dewisiadau'r rhieni. Mae'r Grant Cymorth Ychwanegol yn enghraifft o hyn. Bwriad y Grant Cymorth Ychwanegol yw helpu plant ag anghenion ychwanegol, yn cynnwys anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i gael gafael ar yr elfen gofal plant yng Nghynnig Gofal Plant Cymru. Ond yn ôl adroddiad ymchwil

gan Lywodraeth Cymru (Ni Luanaigh et al 2024), cafodd awdurdodau lleol anhawster i lywio trwy'r tirlun cyllido ehangach, ac roedd ymwybyddiaeth darparwyr o'r Grant Cymorth Ychwanegol yn gymharol isel; yn wir, nid oedd dwy ran o dair ohonynt erioed wedi clywed am y grant. Efallai fod y ffactorau hyn ar y cyd yn peri bod teuluoedd yn colli cyfleoedd i gael cymorth oherwydd prosesau aneglur neu gyfathrebu cyfyngedig.

### 3.2.1. Argaeledd a chyfyngiadau ymarferol

Dengys arolwg yr Adran Addysg ('Childcare and Early Years Survey of Parents', 2024 a 2025) fod argaeledd gofal plant yn rhwystr. Yn ystod y ddwy flynedd o dan sylw, darganfu'r arolwg cynrychiadol hwn a gynhaliwyd ar raddfa fawr fod oddeutu 6% o rieni â phlant 0 i 4 oed yn Lloegr wedi dweud na fu modd iddynt gael gafael ar ofal plant gan fod y darparwyr yn llawn, o gymharu ag 1% o deuluoedd â phlant hŷn. Dengys y canfyddiadau hyn ddiffyg anghymesur yn y ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar – pryder sy'n arbennig o berthnasol i blant o dan 2 oed. O ran gwneud penderfyniadau, dengys yr arolwg mai hwylustod (yn cynnwys hwylustod o ran mynediad, lleoliad ac oriau gwaith) oedd y ffactorau mwyaf cyffredin y soniodd rhieni amdanynt mewn perthynas â defnyddio gofal plant ffurfiol; nodwyd y rhesymau hyn gan 64% o rieni yn 2024, sef cynnydd o gymharu â 60% yn 2023.

Mae tystiolaeth gan Etherington et al (2025) yn cadarnhau bod argaeledd gofal plant yn gallu bod yn broblem, a dangosir bod darpariaethau gofal plant ffurfiol yn arbennig o gyfyngedig mewn ardaloedd difreintiedig, fel cymunedau glofaol Cymru [troednodyn1], lle ceir dim ond 26.8 o leoedd gofal plant cofrestredig fesul 100 o blant o dan 7 oed. Ond gan fod y dull mesur hwn yn cwmpasu ystod oedran ehangach, sef 0 i 7 oed, mae'n lleihau cywirdeb y canfyddiad at ddibenion yr adolygiad hwn, ac mae hefyd yn dangos bwlch ym manylrwydd y sylfaen dystiolaeth bresennol yng Nghymru.

Mae'r astudiaethau ansoddol a adolygwyd yn cynnig rhagor o wybodaeth am y modd y gall mynediad cyfyngedig at ofal plant lywio penderfyniadau. Er enghraifft, cynhaliodd Mollidor et al (2022) astudiaeth ansoddol ar ran Adran Addysg y DU er mwyn archwilio canfyddiad rhieni o ofal plant yn Lloegr. Fel rhan o'r ymchwil, cynhaliwyd cyfweliadau manwl gyda 55 o rieni a chanddynt blant 0 i 4 oed [troednodyn 2]. Soniodd y rhieni am wahanol rwystrau, fel rhestrau aros blwyddyn o hyd, argaeledd ar adegau arbennig o'r flwyddyn a diwrnodau arbennig o'r wythnos yn unig, lleoliad, a'r angen i gofrestru cyn genedigaeth y plentyn er mwyn sicrhau lle. Ymhellach, darganfu'r astudiaeth fod y mwyafrif o'r rhieni'n awyddus i ddefnyddio gofal plant ffurfiol ar ôl i'r plentyn gyrraedd ei flwydd, ond dywedodd rhieni eraill mai plant 18 mis a hŷn a dderbynnir gan feithrinfeydd, gan awgrymu y ceir bwlch rhwng anghenion gofal plant rhieni a'r ddarpariaeth sydd ar gael.

Gwelir canfyddiadau tebyg mewn astudiaeth ansoddol a gynhaliwyd gan Crossfield et al (2023), a aeth ati i archwilio penderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant yn Lloegr. Darganfu'r astudiaeth na fu modd i rai rhieni a chanddynt blant o dan 2 oed gael gafael ar leoedd

Troednodiadau

[1] Diffinnir yr ardaloedd hyn fel hen gymunedau glofaol a ddioddefodd ddirywiad cymdeithasol ac economaidd hirdymor ar ôl i'r diwydiant glo ddod i ben. Mae eu dadansoddiad yn cynnwys ardaloedd fel Castell-nedd Port Talbot a Merthyr Tudful yng Nghymru.

[2] Dewiswyd cyfranogwyr o blith Ton 9 Arolwg Gofal Plant yr Adran Addysg, a chymhwyswyd cwotâu er mwyn sicrhau sampl a oedd yn amrywiol o ran strwythur teuluol, statws cyflogaeth, a defnydd o ofal plant.

mewn meithrinfeydd oherwydd cyfyngiadau oedran; yn aml, dim ond plant 2 oed a hŷn a gâi eu derbyn. Mewn achosion o'r fath, defnyddio gwarchodwyr plant oedd yr unig opsiwn a oedd ar gael – er, soniodd rhieni eu bod wedi cael anhawster i ddod o hyd i warchodwyr plant lleol. Ymhellach, soniodd astudiaeth Wilson-Smith (2022) am rwystrau tebyg yn yr Alban. Yn yr astudiaeth hon, nodir nad oedd nifer o deuluoedd yn y sampl, a chanddynt blant o dan 2 oed, yn ymwybodol o ddarpariaethau gofal plant, neu nad oeddynt yn gymwys ar gyfer darpariaethau o'r fath, gan adlewyrchu'r modd mae cyfyngiadau o ran cymhwystra yn cyfyngu mwy fyth ar fynediad at ofal plant ac argaeledd gofal plant.

Mae La Valle et al (2024) yn cynnig mewnwelediadau diweddarach yn Lloegr: er bod gofal plant ffurfiol yn ymddangos yn fwy hygyrch a fforddiadwy ar bapur, mae rhwystrau ymarferol (fel trefniadau gweithredu anghyson yn lleol, costau cudd, a meini prawf cyfyngol y darparwyr) yn cyfyngu ar nifer y bobl sy'n gwneud defnydd o ofal plant ffurfiol. Er enghraifft, nid oedd gan rai awdurdodau lleol yn Lloegr gapasiti na strategaeth ar gyfer mynd ati'n effeithiol i hyrwyddo a darparu elfennau gofal plant a ariennir, tra roedd eraill yn defnyddio allgymorth teilwredig, fel ymweliadau cartref a negeseuon atgoffa ar ffurf negeseuon testun, i hyrwyddo cyfranogiad. Roedd y materion hyn i'w gweld yn amlwg iawn ymhlith teuluoedd difreintiedig, a gredai nad oedd yr opsiynau a oedd ar gael yn diwallu eu hanghenion yn ymarferol.

Nid pryderon newydd mo mynediad ac argaeledd ar gyfer plant o dan 2 oed. Gwelir bod y materion hyn yn themâu arwyddocaol yn astudiaeth ansoddol Chen a Bradbury (2019), lle astudiwyd dewisiadau rhieni ynglŷn â gofal plant yn Lloegr. Er bod yr astudiaeth yn crybwyll penderfyniadau gofal plant ar gyfer plant 5 mlwydd oed ac iau, mae nifer o'r canfyddiadau'n arbennig o berthnasol i blant o dan 2 oed. Cynhaliwyd yr astudiaeth hon cyn i ofal plant a ariennir gael ei ehangu ar gyfer plant o dan 2 oed yn Lloegr, ac mae'r canfyddiadau'n dal i fod yn berthnasol i gyd-destun Cymru, lle mae cyfyngiadau strwythurol tebyg yn dal i fodoli. Ar ôl cynnal cyfweliadau gyda rhieni, gwelwyd bod diffyg darpariaethau gofal plant a ariennir gan y wladwriaeth ar gyfer plant o dan 3 oed wedi gorfodi nifer o rieni a oedd yn gweithio (yn enwedig rhai â phlant o dan 2 oed) i ddibynnu ar feithrinfeydd preifat, gwarchodwyr plant neu nanis. Arweiniodd hyn at greu "marchnad hollt" lle câi mynediad at ofal plant ei lywio gan adnoddau ariannol a phatrymau gweithio'r rhieni, yn ogystal â chymhwystra o ran oedran. Parodd y cyfyngiadau hyn i nifer o rieni wneud penderfyniadau ynglŷn â gofal plant ar sail hwylustod ac argaeledd yn hytrach nag ar sail ansawdd, a dywedodd rhai bod eu dewisiadau yn "ddewisiadau argyfwng". O gofio'r tebygrwydd rhwng strwythurau marchnad gofal plant Cymru a Lloegr, mae'n debygol bod rhieni yng Nghymru a chanddynt blant o dan 2 oed yn wynebu heriau tebyg o ran cael gafael ar ofal plant addas a fforddiadwy.

Gan adeiladu ar y mewnwelediadau hyn – sydd, gyda'i gilydd, yn dangos sut mae cyfyngiadau strwythurol a chynllun polisi argaeledd cyfyngedig yn llywio mynediad at ofal plant – archwiliodd Maes et al (2023) y modd y gall y ddynameg hon effeithio ar wahanol grwpiau cymdeithasol. Astudiaeth hydredol yn ymwneud â'r defnydd o ofal plant ffurfiol yng Ngwlad Belg yw'r astudiaeth hon, ac mae'n canolbwyntio ar famau mudol ail genhedlaeth a chanddynt blant o dan 3 oed. Er bod cynnydd mewn argaeledd gofal plant ffurfiol lleol yn cael ei gysylltu â defnydd uwch yn gyffredinol, darganfu Maes et al (2023) fod bylchau mawr yn dal i fodoli rhwng mamau brodorol a mamau mudol, yn enwedig ymhlith rhai o

gefndiroedd Twrcaidd a Maghreb. Mae hyn yn ychwanegu dimensiwn newydd at y drafodaeth ynghylch mynediad ac argaeledd, gan ddangos y gall ffactorau croestoriadol, fel cefndir mudol a statws economaidd-gymdeithasol, greu rhwystrau mewn perthynas â gofal plant – patrwm a all fod yn berthnasol i Gymru hefyd.

Awgryma'r canfyddiadau hyn nad yw argaeledd gofal plant ar ei ben ei hun yn gwarantu mynediad teg at ofal plant. Mae sicrhau mynediad teg yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, sy'n cynnwys camau ar gyfer gwella cynhwysiant ac ymatebolrwydd diwylliannol mewn lleoliadau gofal plant ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol a all effeithio ar deuluoedd ethnig lleiafrifol.

### 3.2.2. Diffyg hyblygrwydd gofal plant ffurfiol

Thema arall a welir ar draws y llenyddiaeth yw'r modd y mae diffyg hyblygrwydd gofal plant ffurfiol yn dylanwadu ar benderfyniadau rhieni ynghylch a fyddant/sut y byddant yn ymhél â gwasanaethau addysg a gofal y blynyddoedd cynnar. Ar draws y llenyddiaeth, gwelir yn fynych bod oriau anhyblyg a hyblygrwydd cyfyngedig mewn lleoliadau gofal plant ffurfiol yn methu â diwallu anghenion rhieni sy'n gweithio, yn enwedig rhai sy'n gweithio oriau amser llawn ac oriau afreolaidd, fel shifftiau nos a phenwythnosau (Dallimore 2016; Doorley et al 2023). Caiff hyn ei gadarnhau yn arolwg Lane a Lewis (2023) o Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, pan werthuswyd sut roedd yr awdurdodau'n bodloni eu dyletswyddau statudol i bennu bylchau a phroblemau mynych. Darganfu'r arolwg fod yr holl awdurdodau lleol yn nodi bod hyblygrwydd yn rhwystr hollbwysig mewn perthynas â mynediad at ofal plant, a gwelwyd nad oedd nifer o ddarparwyr yn gallu cynnig gofal ar ôl 6yp neu ar benwythnosau.

Cafodd canfyddiadau tebyg eu cofnodi'n rhyngwladol gan Degotardi et al (2018). Darganfuwyd bod rhieni yn Awstralia a oedd yn defnyddio gofal gydol y dydd (h.y. gofal plant am ddiwrnod cyfan) yn fwy tebygol o ddweud bod pryderon pragmataidd, fel oriau agor ac agosrwydd, yn gwbl ganolog i'w dewisiadau mewn perthynas â gofal plant. Gan droi ein sylw yn ôl at Gymru, mae Hughes a Jones (2021) yn cynnig mewnwelediad ansoddol, a gwelir bod rhieni o'r farn bod gwaith shifft ac oriau afreolaidd yn creu anawsterau o ran ymrwymo i ofal plant ffurfiol. Dywedodd un rhiant a gymerodd ran yn yr astudiaeth nad yw gofal plant ffurfiol yn diwallu anghenion rhieni sy'n gweithio shifftiau, gan na ellir addasu trefniadau ar fyr rybudd; ac esboniodd rhiant arall fod diffyg gofal cofleidiol a diffyg trafnidiaeth rhwng lleoliadau yn golygu bod ei hawl i ofal plant a ariennir gan y llywodraeth yn ymarferol. Gyda'i gilydd, awgryma'r astudiaethau hyn fod yr anhyblygrwydd strwythurol sydd ynghlwm wrth ofal plant ffurfiol yn cyfyngu mynediad at ofal plant, a'i fod hefyd yn llywio dewisiadau rhieni, gan orfodi teuluoedd yn aml i droi at ofal anffurfiol neu beri iddynt wneud defnydd rhannol yn unig o'u hawliau.

Cofnodwyd canfyddiadau tebyg mewn astudiaeth a gynhaliwyd gan Crossfields et al (2023), lle darganfuwyd bod rhieni yn Lloegr (sef rhieni a oedd yn dibynnu ar ofal plant ffurfiol er mwyn iddynt allu gweithio) yn methu â gwneud defnydd hyblyg o'r ddarpariaeth, gan fod yr oriau'n ddibynnol ar eu hamserlenni gwaith. Oherwydd yr anhyblygrwydd hwn, nid gwaith

hawdd oedd darparu ar gyfer newidiadau mewn patrymau gwaith neu bwysau ariannol, a bu'n rhaid i rai rhieni ddefnyddio gofal anffurfiol i raddau mwy. Hefyd, dengys yr astudiaeth fod gwarchodwyr plant yn cael eu mawrbrisio oherwydd eu gallu i gynnig gofal heb ei gynllunio neu ofal ar fyr rybudd, gan danlinellu'r cyfyngiadau sy'n perthyn i leoliadau ffurfiol mwy strwythuredig.

Yn ychwanegol at hyn, mae McLean et al (2017) yn tynnu sylw at y cyfyngiadau amserol sy'n gysylltiedig â gofal plant ffurfiol. Yn eu hastudiaeth drawsgenedlaethol ac ansoddol, aethant ati i gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig gyda 62 o gyfranogwyr sefydliadol mewn 6 gwlad yn Ewrop er mwyn archwilio'r heriau logistaidd a oedd yn wynebu rhieni wrth drefnu gofal plant. Darganfuwyd bod rhieni'n wynebu heriau logistaidd yn gyson wrth geisio cydlynu gofal plant â chyflogaeth. Nid argaeledd neu fforddiadwyedd gofal plant ffurfiol yw'r unig heriau, ond i ba raddau mae'r gofal hwnnw'n cyd-fynd â threfniadau dyddiol y teuluoedd. Mae rhieni'n ymlafnio â chyfyngiadau gofodol, fel y pellter rhwng eu cartref, y lleoliad gofal plant a'u gweithle, yn ogystal â chyfyngiadau amserol, yn cynnwys diffyg cydweddiad rhwng y gofal plant ac oriau gwaith y rhieni.

### 3.2.3. Cymhlethdod gweinyddol

Er bod penderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant yn cael eu llywio'n fynych gan gyfyngiadau ymarferol, fel y nodir uchod, ceir tystiolaeth ychwanegol sy'n dangos y modd y gall dryswch, rheolau cymhwystra aneglur a chyfathrebu gwael esgor ar rwystrau mawr o ran cael gafael ar ofal plant ffurfiol, yn enwedig yn achos rhieni â babanod.

Er enghraifft, yn achos rhieni a gâi gymorth gofal plant ychwanegol yng Nghymru trwy gyfrwng y Grant Cymorth Ychwanegol, darganfu adroddiad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r grant nad oedd rhai o'r teuluoedd yn ymwybodol o gwbl o'r cynllun, neu nad oeddynt yn gwybod rhyw lawer amdano. Yn ystod cyfweliadau ansoddol, gwelwyd nad oedd rhai rhieni'n gwybod eu bod yn cael y grant, ac nad oeddynt ychwaith yn gwybod beth oedd ei bwrpas, a'u bod yn dibynnu'n fawr ar ddarparwyr gofal plant rhagweithiol i ddod o hyd i'r cymorth ar eu rhan. Datgelodd y cyfweliadau rwystredigaeth gyffredin oherwydd diffyg tryloywder a diffyg cyfathrebu gan awdurdodau lleol; yn ôl y sôn, roedd rhai awdurdodau'n osgoi cyhoeddi gwybodaeth am y grant er mwyn iddynt allu rheoli'r galw. Hyd yn oed pan mae cymorth gofal plant ar gael, awgryma'r canfyddiadau hyn nad yw teuluoedd yn gallu gwneud penderfyniadau cwbl gytbwys yn ei gylch heb wybodaeth glir a hygyrch.

Caiff y cysylltiad hwn rhwng cymhlethdod strwythurol ar y naill law, a chael gafael ar ofal plant ffurfiol ar y llaw arall, ei ategu ymhellach gan ymchwil a gynhaliwyd gan Mendizabal-Espinosa et al (2024). Yn yr adolygiad cyflym hwnnw o dystiolaeth a ddeilliodd o'r DU, syntheseiddiwyd canfyddiadau 106 o astudiaethau'n ymwneud ag elfennau a oedd yn rhwystro ac yn galluogi mynediad at addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar. Er mai 0 i 5 oed yw'r ystod oedran y canolbwyntir arno yn yr adolygiad, cynigir mewnwelediadau pwysig ar gyfer rhieni â phlant rhwng 9 mis a 2 oed, yn enwedig mewn perthynas â'r hawl i gael gofal plant a ariennir ar gyfer plant 2 oed. Mae'r adolygiad yn dangos bod dryswch o ran cymhwystra (megis a oes yn rhaid i'r rhieni fod mewn gwaith, sut mae budd-daliadau'n

rhyngweithio â'r hawl, a sut fathau o leoliadau gofal plant sy'n berthnasol) yn gallu atal teuluoedd rhag ymhél â gofal plant ffurfiol a ariennir. Roedd y materion hyn i'w gweld yn arbennig ymhlith teuluoedd ethnig lleiafrifol a theuluoedd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a oedd yn wynebu rhwystrau mynych fel gwahaniaethau o ran ieithoedd, allgáu digidol, a diffyg gwybodaeth amlieithog a diwylliannol briodol.

Ymhellach, yn yr adolygiad cyflym o'r dystiolaeth, roedd y broses ymgeisio ei hun yn rhwystr: gwelwyd na allai rhieni â sgiliau llythrennedd/TG cyfyngedig ddefnyddio ffurflenni ar-lein, ac roedd diffyg systemau gwybodaeth amlieithog, canolog yn golygu bod nifer o deuluoedd yn dibynnu ar rwydweithiau anffurfiol i lywio trwy'r system. Gall y ddibyniaeth hon allgáu pobl sy'n newydd i'r ardal neu sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol. Gall rhwystrau strwythurol a rhwystrau gwybodaeth o'r fath ohirio mynediad at ofal plant ffurfiol, gan lywio penderfyniadau rhieni a pheri i deuluoedd ohirio gofal plant ffurfiol neu ei osgoi'n gyfan gwbl.

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau ymchwil yn dangos bod rhwystrau strwythurol a rhwystrau gwybodaeth yn cymhlethu mynediad at ofal plant ffurfiol, gan lywio penderfyniadau rhieni mewn modd sylfaenol; weithiau, gall rhwystrau o'r fath arwain at ohirio defnydd o ofal plant ffurfiol a ariennir, gallant beri bod rhieni'n dychwelyd i'r gwaith yn gynnar, neu gallant beri bod rhieni'n osgoi gofal ffurfiol yn gyfan gwbl.

### 3.2.4. Prosesau ymgeisio cymhleth

Er bod dryswch a chyfathrebu gwael yn cyfyngu ar y modd mae rhieni'n deall eu hopsiynau gofal plant, gwelir bod rhwystr ychwanegol i'w gael yn ystod y broses ymgeisio ei hun. Hyd yn oed pan mae teuluoedd a rhieni'n ymwybodol o'u hawl, dangosodd sawl astudiaeth fod llywio trwy'r system yn esgor ar heriau ychwanegol – a rhwystrau ychwanegol, hyn yn oed, i rai pobl.

Ceir enghraifft o hyn yn adroddiad adolygiad Arad Research (2021). Er bod gwahanol gynlluniau'n bodoli ar gyfer cynnig cymorth gofal plant i rieni mewn addysg neu hyfforddiant neu i rieni sy'n dychwelyd i'r gwaith, mae'r adroddiad yn nodi bod y broses ymgeisio ei hun yn gallu esgor ar rwystrau. Darganfu'r adolygiad fod cynrychiolwyr o'r sector addysg bellach ac uwch o'r farn bod prosesau'r Grant Gofal Plant yn "faith", yn "llethol" ac yn "drafferthus iawn". Yn fwy cyffredinol, nododd yr adolygiad fod cymhlethdod a hyd y prosesau ymgeisio yn esgor ar rwystrau hollbwysig ar draws cynlluniau, a bod rhieni'n wynebu dryswch oherwydd rheolau cymhwystra gorgyffyrddol rhwng gwahanol ffynonellau cyllido, fel Credyd Cynhwysol a Gofal Plant Di-dreth. Mae gan bob cynllun ei feini prawf, ei drothwyon a'i ddulliau ymgeisio ei hun, felly tasg anodd yw mynd ati i gyflwyno ceisiadau. Cafodd dryswch y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau ei adleisio gan y rhieni ar y fforymau ar-lein [troednodyn 3].

Troednodiadau

[3] Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ni chynhaliodd Arad Research (2021) gyfweliadau sylfaenol gyda rhieni. Yn hytrach, dadansoddwyd fforymau trafod ar-lein a fodolai eisoes, yn benodol Mumsnet, Student Room, a Money Saving Expert, er mwyn archwilio profiadau ac ymholiadau rhieni ynglŷn â chymorth gofal plant.

Gwelir canfyddiadau tebyg yn astudiaeth ansoddol Hughes a Jones (2021), sef astudiaeth ethnograffig o 53 o deuluoedd a chanddynt blant 3 i 4 oed ar draws 9 awdurdod lleol yng Nghymru. Er bod yr astudiaeth hon wedi canolbwyntio ar Gynnig Gofal Plant Cymru, sy'n berthnasol i grŵp oedran hŷn na'r grŵp oedran y canolbwyntir arno yn yr asesiad hwn, mae'r canfyddiadau'n dal i fod yn berthnasol iawn. Yn arbennig, mae'r astudiaeth yn dangos bod prosesau ymgeisio cymhleth a beichus yn gallu atal rhieni cymwys rhag gwneud cais am ofal plant ffurfiol. Pwysleisia hyn pa mor bwysig yw sicrhau bod rhieni'n cael cymorth i lenwi ceisiadau, ynghyd â sicrhau eu bod yn gwybod ble y gallant gael gafael ar gymorth o'r fath.

Mae canfyddiadau pellach sy'n deillio o'r astudiaeth yn dangos bod proses ymgeisio Cynnig Gofal Plant Cymru wedi atal rhieni cymwys rhag cael gafael ar ofal plant. Er bod y cyfranogwyr, ar y cyfan, yn ymwybodol iawn o Gynnig Gofal Plant Cymru, dywedodd nifer ohonynt eu bod wedi cael anawsterau gyda'r broses ymgeisio. Dywedwyd bod y ffurflenni cais yn rhy gymhleth a thrafferthus ac nad oeddynt yn hawdd eu defnyddio. I rai, roedd y broses yn gymhleth, a nodwyd bod diffyg hyder ac amser yn rheswm hollbwysig dros beidio â llenwi'r ffurflenni. Darganfu Hughes a Jones (2021) fod hyn yn arbennig o wir yn achos rhieni unigol, rhieni â mynediad digidol cyfyngedig, neu deuluoedd heb gyflogaeth ddiogel. Er enghraifft, roedd rhieni hunangyflogedig a rhieni ar gontractau dim oriau neu gontractau afreolaidd yn wynebu heriau ychwanegol o ran profi eu bod yn gymwys. Oherwydd amgylchiadau eu cyflogaeth, yn aml nid oedd modd iddynt gyflwyno slipiau cyflog neu dystiolaeth o oriau gwaith cyson, felly cawsant eu heithrio i bob pwrpas rhag cael gafael ar gymorth.

Ymhellach, mewn rhai achosion dywedodd rhieni eu bod yn teimlo'n anesmwyth ynglŷn â lefel yr wybodaeth bersonol a oedd yn ofynnol, a dywedwyd bod y broses yn "ymwthiol" neu'n "ymwthiol iawn". Parodd hyn i rai teuluoedd benderfynu peidio â chyflwyno cais o gwbl, hyd yn oed os oeddynt yn gymwys, gan fod yn well ganddynt ddibynnu ar ofal plant anffurfiol neu dalu'n breifat am ofal plant.

Nid rhwystrau diweddar mo'r rhwystrau gweinyddol hyn. Darganfu ymchwil gan Chadwick et al (2018) fod y broses ymgeisio ar gyfer gofal plant yn Lloegr, ynddi'i hun, yn atal rhieni rhag gwneud defnydd o ofal plant a ariennir. Dewisodd rhai rhieni beidio ag ymgeisio o gwbl, gan ragweld proses rwystredig a chymhleth a fyddai'n drech nag unrhyw fanteision ymddangosiadol. Dechreuodd rhieni eraill gyflwyno cais, ond rhoddasant y gorau iddi hanner ffordd drwy'r broses oherwydd rhwystrau ymarferol. Roedd yr heriau hollbwysig yn cynnwys problemau technegol, fel codau ymgeisio coll a ffurflenni digidol wedi'u cynllunio'n wael – sef problemau a oedd yn arbennig o anodd i rieni â sgiliau cyfrifiadurol cyfyngedig. Ychwanegodd problemau cyfathrebu, fel camwybodaeth a llythyrau gwrthod gwallus, at y dryswch. Roedd rhai rhieni o'r farn bod y system yn fwriadol gymhleth, a'i bod wedi'i llunio mewn modd a fyddai'n datgymell ymgeiswyr nad oeddynt mewn gwir angen. Hefyd, dangosodd yr astudiaeth fod systemau 'ar-lein yn unig' yn esgor ar broblemau mawr o ran hygyrchedd i deuluoedd nad oedd ganddynt lythrennedd digidol neu fynediad dibynadwy at y rhyngrwyd. Roedd un rhiant, er enghraifft, wedi gofyn i gyfaill am help i lenwi ffurflen ar-lein.

Yn yr un modd â chanfyddiadau Mendizabal-Espinosa et al (2024), roedd y broses yn arbennig o anodd i rieni a siaradai Saesneg fel Iaith Ychwanegol, ac yn aml bu'n rhaid iddynt gael cymorth wyneb yn wyneb – sef rhywbeth nad oedd wastad ar gael. Yn gyffredinol, dengys Chadwick et al (2018) fod y broses ymgeisio'n gallu bod yn rhwystr mawr. Mae rhwystrau strwythurol a rhwystrau gwybodaeth o'r fath yn gallu atal teuluoedd rhag cael gafael ar ofal plant a ariennir, hyd yn oed pan fônt yn gymwys i'w gael, gan lywio penderfyniadau rhieni ynghylch a fyddant/sut y byddant yn ymhél â gofal plant ffurfiol.

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn yr adran hon yn dangos nad mynediad ac argaeledd yw'r unig ystyriaethau ymarferol i deuluoedd a chanddynt blant o dan 3 oed, a bod materion strwythurol yn llywio, yn cyfyngu ac, o dro i dro, yn pennu penderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant. Er bod diffyg lleoedd, cyfyngiadau oedran a gwahaniaethau o ran lleoliad yn parhau i gyfyngu ar y defnydd a wneir o ofal plant ffurfiol, mae rhieni a theuluoedd hefyd yn wynebu heriau gweinyddol sylweddol. Mae dryswch ynghylch cymhwystra, cyfathrebu anghyson a phrosesau ymgeisio beichus yn parhau i ohirio neu atal defnydd o ofal plant, yn enwedig ymhlith teuluoedd difreintiedig.

Awgryma'r canfyddiadau hyn nad cynyddu'r ddarpariaeth yw'r unig beth y dylid ei wneud i wella mynediad at ofal plant ffurfiol. Yn ogystal â chynyddu'r ddarpariaeth, mae angen symleiddio systemau, egluro hawliau mewn perthynas â gofal plant a ariennir, a sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cynorthwyo trwy'r broses. Heb y gwelliannau hyn, bydd penderfyniadau rhieni ynglŷn â defnyddio gofal plant ffurfiol, a phryd i ddefnyddio gofal o'r fath, yn parhau i gael eu llywio gan rwystrau mwy strwythurol.

## 3.3. Gwerthoedd, credoau a dewisiadau rhieni

Er mai anghenion ymarferol, fel cost ac argaeledd gofal plant, yw'r prif elfennau a ystyrir gan rieni wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â gofal plant ffurfiol, mae corff arall o lenyddiaeth yn datgelu bod rhieni â phlant ifanc hefyd yn ystyried y manteision datblygiadol sy'n perthyn i ofal plant ffurfiol. Fel arfer, mae a wnelo'r manteision hyn â chymdeithasoli cynnar, twf emosiynol a datblygiad gwybyddol sylfaenol, hyd yn oed pan na fo babanod yn ymhél â dysgu strwythurol (Berlinski et al 2020; Sollars 2016).

### 3.3.1. Manteision datblygiadol ymddangosiadol

Mae'r data diweddaraf sy'n deillio o arolwg yr Adran Addysg (2024) o rieni yn Lloegr yn datgelu bod 56% o rieni a chanddynt blant 0 i 4 oed wedi dweud mai rhesymau'n ymwneud â datblygiad addysgol a chymdeithasol eu plant oedd eu prif ysgogiad dros ddefnyddio gofal plant ffurfiol. Awgryma hyn fod rhieni'n cydnabod yn fwyfwy bod gofal plant cynnar yn bwysig o ran llywio canlyniadau datblygiadol hirdymor.

Mae Berlinski et al (2020) yn cyflwyno cefnogaeth empirig ynglŷn â defnyddio gofal plant ffurfiol cynnar fel adnodd datblygu. Gan ddefnyddio data gweinyddol o Ddenmarc, darganfu'r astudiaeth fod rhoi plentyn mewn gofal plant cynnar yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn datblygu sgiliau ieithyddol annigonol erbyn iddo gyrraedd 5 oed, yn enwedig ymhlith bechgyn. Mae absenoldeb unrhyw effaith iechyd negyddol hirdymor yn cryfhau'r

achos dros gofrestru plant yn gynnar mewn gofal plant ffurfiol, gan awgrymu y gall amgylcheddau strwythuredig a chyfoethog eu hiaith esgor ar fanteision gwybyddol ymhell cyn i'r plant gyrraedd oedran ysgol. Er nad yw'r astudiaeth yn mynd ati'n benodol i archwilio'r rhesymau sy'n ysgogi rhieni, mae'n cynnig cefndir empirig pwysig ar gyfer deall achosion pan mae rhieni'n mynd ar drywydd gofal plant ffurfiol fel ffordd o ategu datblygiad eu plentyn.

Ymhellach, mae astudiaethau ansoddol eraill yn dangos bod rhieni â babanod a phlant bach yn aml yn credu'n gryf yn y datblygiadau a'r manteision sydd ynghlwm wrth ofal plant ffurfiol. Er enghraifft, er mai cyflogaeth oedd prif ysgogiad rhieni wrth ddewis gofal plant ffurfiol, darganfu Sollars (2016) fod rhieni â phlant o dan 3 oed wedi dweud mai datblygiad cymdeithasol oedd eu prif reswm dros gofrestru eu plant mewn gofal plant ffurfiol. Roedd y rhieni a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn gobeithio y byddai lleoliadau gofal plant ffurfiol yn annog dysgu cynnar, cyfathrebu a rhyngweithio rhwng cyfoedion. Yn bwysig ddigon, hyd yn oed yn achos plant o dan 2 oed, roedd y rhieni yn yr astudiaeth hon yn mawrbrisio gweithgareddau seiliedig ar chwarae, fel canu a chrefftau; awgryma hyn fod cymdeithasoli yn nod datblygiadol.

Mae Degotardi et al (2018) yn cynnig mewnwelediad pellach i'r modd mae rhieni â phlant ifanc iawn yn gwneud penderfyniadau gofal plant ar sail ffactorau datblygiadol. Yn eu hastudiaeth o deuluoedd yn Awstralia a oedd yn defnyddio gofal plant gydol y dydd ar gyfer plant o dan 3 oed, dywedodd 68% ohonynt fod rhyngweithio â chyfoedion yn ysgogiad hollbwysig, a phwysleisiodd 44% pa mor werthfawr oedd amgylcheddau addysgol. Dywedodd y rhieni a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon eu bod yn ffafrio lleoliadau seiliedig ar chwarae a oedd yn meithrin eu plant ac yn ategu eu datblygiad emosiynol a chymdeithasol; ac yn aml, roedd y ffactorau hyn yn bwysicach iddynt na phryderon logistaidd, fel hwylustod neu fforddiadwyedd. Mae'r astudiaeth yn herio'r rhagdybiaethau bod rhieni â babanod yn dewis gofal plant ffurfiol yn unswydd oherwydd rhesymau'n ymwneud â gwaith, gan ddangos bod nifer ohonynt yn chwilio am amgylcheddau a fydd, yn eu tyb nhw, yn meithrin cynnydd datblygiadol eu plant o oedran cynnar.

Yn ychwanegol at hyn, mae Ferguson et al (2020) yn nodi bod datblygiad cymdeithasol yn thema gyson ac amlwg mewn perthynas â phenderfyniadau rhieni. Gan ddefnyddio ymatebion penagored gan rieni o'r Unol Daleithiau (nifer ohonynt â phlant o dan 3 oed), darganfuwyd mai cymdeithasoli oedd y rheswm mwyaf mynych y soniwyd amdano dros gofrestru mewn lleoliadau gofal plant, a dywedodd y rhieni eu bod yn dymuno i'w plant "wneud cyfeillion" a "chael cwmni plant eraill" (t. 373). Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag ymchwil ddiweddarach a gynhaliwyd gan Crossfield et al (2023). Yn ogystal â chael eu hystyried fel cyfleusterau gofal plant, darganfu'r ymchwil hon fod meithrinfeydd yn cael eu hystyried fel "y camau cyntaf tuag at addysg" (t. 9), a'u bod yn ategu cyfathrebu, annibyniaeth a chadernid emosiynol. Er mai plant cyn oedran ysgol a gynhwyswyd yn bennaf yn sampl Crossfield et al (2023), roedd barn y rhieni ynglŷn â datblygiad gofal plant yn gyson ar draws y grwpiau.

Mae astudiaethau eraill wedi archwilio'r modd mae gwerthoedd diwylliannol ac ieithyddol yn llywio safbwyntiau ynglŷn â manteision datblygiadol gofal plant. Wrth astudio lleoliadau cyn ysgol cyfrwng Gwyddeleg, darganfu Mhathúna a Fhionnlaoich (2020) fod rhieni â phlant mor

ifanc â 2 oed ac 8 mis yn mawrbrisio datblygiad cymdeithasol a gwybyddol ochr yn ochr â dwyieithrwydd. Gwelwyd bod nifer o'r rhieni yn yr astudiaeth hon wedi canmol y dull addysgegol a oedd yn seiliedig ar chwarae ac a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn, gan ddweud bod y dull hwnnw'n ategu datblygiad emosiynol a'i fod yn ddatblygiadol briodol. Er bod ystod oedran y plant a gynhwyswyd yn yr astudiaeth hon rywfaint yn hŷn na 2 oed, awgryma'r canfyddiadau fod ysgogiadau datblygiadol, fel clymau cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol, yn ganolog i benderfyniadau ynghylch gofal plant, hyd yn oed mewn lleoliadau penodol eu diwylliant.

Er mai cyd-destun Gwyddelig sy'n berthnasol i astudiaeth Mhathúna a Fhionnlaoich (2020), mae'r canfyddiadau'n cynnig cyfrwng gwerthfawr ar gyfer ystyried cyfatebiaethau yng Nghymru. O gofio ymrwymiadau strategol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo dwyieithrwydd o blentyndod cynnar ymlaen, fel y nodir yn Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (2024), mae'n debygol bod rhieni yng Nghymru hefyd o'r farn bod gofal plant dwyieithog yn fuddiol i ddatblygiad eu plant. Er mai cyfyngedig yw'r ymchwil empirig ynglŷn â'r pethau sy'n ysgogi rhieni i ddewis gofal plant cyfrwng Cymraeg fel mantais ddatblygiadol, mae cyfeiriad y polisi'n dangos pwyslais cynyddol ar ddwyieithrwydd fel agwedd graidd ar ofal plant y blynyddoedd cynnar. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Hughes a Jones (2021) yn tynnu sylw at hyn, gan ddangos bod rhieni Cymraeg â phlant o dan 3 oed yn credu yn aml bod gofal plant ffurfiol cyfrwng Cymraeg yn ategu nodau datblygiadol ehangach (fel integreiddio cymdeithasol a llesiant emosiynol) yn ogystal â dwyieithrwydd. Awgryma hyn fod hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol, hyd yn oed yn y blynyddoedd cynnar, yn ganolog i benderfyniadau rhieni yng Nghymru.

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau a nodir uchod yn dangos bod ysgogiadau datblygiadol – yn cynnwys cymdeithasoli, llesiant emosiynol a dysgu iaith yn gynnar – yn cael lle mwyfwy canolog ym mhenderfyniadau rhieni, hyd yn oed ar gyfer plant o dan 3 oed. Er bod rhan helaeth o'r llenyddiaeth bresennol yn canolbwyntio ar gyd-destunau y tu allan i Gymru, mae tystiolaeth a ddaw i'r amlwg yn awgrymu bod patrymau tebyg i'w gweld ymhlith teuluoedd yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â darpariaethau cyfrwng Cymraeg. Mae'r cydweddiad rhwng dyheadau rhieni ar y naill law a nodau polisi cenedlaethol (fel Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a Cymraeg 2050) ar y llaw arall yn awgrymu meysydd ymchwil ffrwythlon.

### 3.3.2. Ymddiriedaeth, diwylliant a chysylltiad mewn lleoliadau gofal plant

Yng nghyd-destun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, gwelir bod rhieni wedi rhoi pwyslais hefyd ar bwysigrwydd ymddiriedaeth, cydweddiad diwylliannol a chydberthnasau ystyrlon wrth werthuso a dewis lleoliadau gofal plant. Yn y fan hon, mae'r term "diwylliannol" yn cyfeirio at y graddau mae gwasanaethau'n parchu ac yn adlewyrchu credoau, gwerthoedd, ieithoedd a phrofiadau bywyd y teuluoedd sy'n dewis defnyddio'u gwasanaeth. Mae corff cynyddol o ymchwil yn dangos y modd mae'r dimensiynau perthynol a diwylliannol hyn yn dylanwadu ar ymgysylltiad a phenderfyniadau rhieni mewn perthynas â Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

Yn eu hastudiaeth ansoddol gyda rhieni ag adnoddau annigonol yng Ngorllewin Canol yr Unol Daleithiau (sef rhieni a chanddynt blant 0 i 5 oed), darganfu Bosire et al (2025) fod y rhieni'n mawrbrisio cydweddiad perthynol a diwylliannol mewn lleoliadau gofal plant. Trwy gyfrwng grwpiau ffocws gyda 118 o rieni, datgelodd yr astudiaeth fod cyfathrebu manwl, amynedd y gofalwyr a staffio cyson yn elfennau hollbwysig ar gyfer meithrin ymddiriedaeth a sicrhau cysylltiad. Nodwyd hefyd bod cymhwysedd diwylliannol yr un mor bwysig, a dywedodd nifer o rieni fod yn well ganddynt ofalwyr a oedd yn rhannu'r un cefndiroedd diwylliannol â nhw. Yn arbennig, gwelwyd bod rhai teuluoedd wedi osgoi gofal plant ffurfiol yn gyfan gwbl oherwydd pryderon ynghylch gwahaniaethu neu ansensitifrwydd diwylliannol a'u bod, yn hytrach, wedi dewis gofal cymunedol [troednodyn 4] [troednodyn 5]. Y tu hwnt i bryderon strwythurol, fel cost ac argaeledd, awgryma hyn fod ymddiriedaeth berthynol a chydweddiad diwylliannol hefyd yn llywio penderfyniadau rhieni.

Yn yr un modd, mae Crossfields et al (2023) yn nodi bod ymddiriedaeth a diogelwch emosiynol yn bryderon hollbwysig i rieni, yn enwedig i deuluoedd â phlant o dan 3 oed. Roedd y rhieni'n mawrbrisio parhad o ran staff, rhadlonrwydd a sylw emosiynol – sef agweddau a all helpu plant i feithrin cydberthnasau diogel. Ymhellach, nodwyd bod y gallu i gadw staff yn arwydd o ansawdd, ac yn ôl un rhiant "nid ydych eisiau gweld wyneb newydd bob tro a meddwl 'pwy sy'n gofalu am fy mhlentyn'", gan bwysleisio bod rhieni'n cymryd sylw o ffactorau perthynol wrth ymhél â darpariaethau gofal plant ffurfiol. Mae hyn yn tanlinellu'r ffaith bod diogelwch emosiynol, i'r rhiant ac i'r plentyn, yn hanfodol i ansawdd ymddangosiadol gofal plant ffurfiol a'r defnydd posibl a wneir ohono.

Pwysleisiwyd ymhellach gan Wilson-Smith et al (2022) pa mor bwysig yw nodweddion y staff o ran sefydlu ymddiriedaeth – nodweddion megis rhadlonrwydd, proffesiynoldeb ac agosatrwydd. Yn eu cyfweliadau manwl gyda 39 o rieni a gofalwyr yn yr Alban, dywedodd y rhieni'n fynych fod cydberthnasau hirdymor gyda staff dibynadwy roeddynt yn eu hadnabod yn helpu i roi hyder iddynt mewn gwasanaethau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. I'r gwrthwyneb, i rai teuluoedd roedd profiadau negyddol – fel diffyg sylw i anghenion ychwanegol plant – yn arwain at broblemau mawr o ran ymddiriedaeth. Dengys y canfyddiadau hyn nad nodweddion dymunol yn unig mo cysylltiadau emosiynol a chydberthnasau cyson rhwng gofalwyr a phlant ond eu bod, yn hytrach, yn feini prawf hanfodol ym mhenderfyniadau rhieni ynglŷn â'r defnydd a wnânt o ofal plant ffurfiol.

Caiff un agwedd ar y dimensiwn diwylliannol – sef ansawdd – ei amlygu yn astudiaeth Mhathúna a Fhionnlaoich (2021). Yn yr astudiaeth hon, darganfuwyd bod hunaniaeth ddiwylliannol a diogelu iaith yn ysgogiadau hollbwysig i rieni wrth ddewis lleoliadau cyn ysgol cyfrwng Gwyddeleg. Hyd yn oed pan nad oedd y rhieni'n rhugl mewn Gwyddeleg, roedd nifer ohonynt o'r farn bod addysg cyfrwng Gwyddeleg yn ffordd o gysylltu eu plant

Troednodiadau

[4] Nid yw Bosire et al (2025) yn diffinio 'gofal cymunedol', ond maent yn ei ddisgrifio trwy nodi enghreifftiau. Cyfeiriant at ofal anffurfiol gan deuluoedd, cyfeillion dibynadwy, cymdogion neu aelodau o'r un gymuned ethnig neu grefyddol.

[5] Mae enghreifftiau gan Bosire et al (2025) yn cynnwys rhieni o Somalia a fynegodd anesmwythyd â lleoliadau gofal plant nad oeddynt yn darparu ar gyfer eu harferion crefyddol, rhieni nad oeddynt yn siarad Saesneg a deimlai eu bod yn cael eu hallgáu rhag ymgysylltu â'r ysgol, a phryderon ynglŷn â rhagfarn hiliol o ran y modd y câi plant o liw eu trin mewn lleoliadau grŵp.

gyda threftadaeth genedlaethol, a'i fod hefyd yn ffordd o feithrin ymdeimlad o berthyn. Dywedodd y mwyafrif o'r rhieni (81%) eu bod yn dymuno i'w plant siarad Gwyddeleg a mynegodd 74% ddiddordeb personol yn yr iaith. Dengys yr astudiaeth hon y modd y gall gwerthoedd diwylliannol ac ieithyddol ysgogi dewisiadau addysgol cynnar y tu hwnt i ystyriaethau logistaidd neu addysgol yn unig.

Yng Nghymru, ceisiodd Hughes a Jones (2021) ddarganfod pam nad yw pob teulu cymwys yn gwneud yn fawr o ddarpariaethau gofal plant ffurfiol a ariennir, fel cynnig gofal plant Cymru. Dengys y canfyddiadau y modd mae ymddiriedaeth, cynefindra diwylliannol a chydweddiad strwythurol yn rhyngweithio. Mae rhai teuluoedd yn penderfynu peidio â gwneud yn fawr o ofal plant ffurfiol oherwydd diffyg opsiynau cyfrwng Cymraeg, diffyg cydweddiad â gwerthoedd crefyddol neu bersonol, neu bryderon ynglŷn â gofal amhersonol, o gymharu â gofal y gellir ei ddarparu oddi mewn i deuluoedd. Yn achos teuluoedd â phlant yr amheuwyd/y cadarnhawyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, fel awtistiaeth, roedd ymddiriedaeth yng ngallu'r darparwr i ddarparu ar gyfer anghenion penodol y plant yn elfen hollbwysig. Dewisodd un rhiant a oedd yn rhan o'r astudiaeth beidio â defnyddio hawl gyflawn y cynnig gofal plant gan fod y plentyn yn cael anawsterau â newidiadau a chan ei fod angen trefn ragweladwy. Mae'r mewnwelediadau hyn yn tanlinellu'r agweddau emosiynol a ystyrir gan rieni – sef ystyriaethau sy'n llywio'r modd maent yn ymhél â gofal ffurfiol.

Ymhellach, mae astudiaeth Skattebol (2016) yn nodi natur hirdymor y pryderon a'r ffactorau hyn. Gan archwilio safbwyntiau teuluoedd a oedd yn ffoaduriaid ac a oedd ar incwm isel mewn 6 safle ymchwil ar draws canol dinasoedd, cylchoedd gwledig y cyrion ac ardaloedd gwledig yn Awstralia, darganfu'r astudiaeth fod amgylcheddau a ddangosai barch at ddiwylliant yn cael eu mawrbrisio, nid yn unig oherwydd eu cost a'u hygyrchedd, ond gan eu bod yn cyd-fynd â normau'r gymuned o ran y modd y câi plant eu magu. Roedd rhai pobl yn ffafrio gofal dydd gan aelodau teuluol oherwydd ei ddwyochredd a'i gynefindra diwylliannol. Wrth i deuluoedd sefydlu, symudodd nifer ohonynt i leoliadau mwy ffurfiol a oedd yn parhau i barchu ymreolaeth a thraddodiadau teuluol. Dywedodd un rhiant fod ei phlentyn yn cael dewis a oedd eisiau cael cyntun ai peidio, gan ddweud "maen nhw'n parchu teimladau'r plentyn". Roedd teuluoedd brodorol yn ffafrio modelau seiliedig ar chwarae a oedd yn eu galluogi i gael mynediad at wasanaethau heb oruchwyliaeth, gan ddiogelu cysylltiad cymunedol a galluogedd o ran magu plant. Ar draws y grwpiau amrywiol hyn, nid ystyriaethau eilaidd oedd agweddau perthynol a diwylliannol ar addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar, ond ystyriaethau cwbl sylfaenol.

Gyda'i gilydd, mae'r astudiaethau hyn yn dangos bod nifer o deuluoedd, yn enwedig teuluoedd o gefndiroedd a ymyleiddiwyd neu gefndiroedd amrywiol eu diwylliant, o'r farn bod ymddiriedaeth, cydweddiad diwylliannol a chysylltiad emosiynol yn benderfynyddion craidd mewn perthynas ag ansawdd gofal plant ffurfiol a defnydd o ofal plant ffurfiol. Er bod nodweddion strwythurol (fel cost neu oriau agor) yn bwysig, yn aml cânt eu gwerthuso trwy lens berthynol. Yn ogystal â dymuno cael mynediad at ofal, mae teuluoedd yn dymuno cael mynediad at ofal sy'n eu parchu nhw, eu gwerthoedd a'u traddodiadau, ac sydd hefyd yn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth gyda'u plant. Dengys yr astudiaethau hyn y modd y dylai polisïau ac arferion y dyfodol mewn perthynas â gofal plant ffurfiol roi sylw i'r

dimensiynau hyn er mwyn sicrhau y bydd y gofal hwnnw'n wirioneddol gynhwysol ac ymatebol i'r cymunedau yr anelir at eu gwasanaethu.

### 3.3.3. Hoffter o ofal plant anffurfiol

Thema gyson arall a welir ledled y llenyddiaeth yw'r ffaith bod rhieni'n ffafrio gofal plant anffurfiol, yn enwedig gofal a ddarperir gan deidiau a neiniau a pherthnasau dibynadwy eraill. Nid ffordd o ymateb i ddiffyg gofal plant ffurfiol yn unig yw'r hoffter hwn; yn aml, mae'n adlewyrchu gwerthoedd dyfnach, fel ymddiriedaeth, diogelwch emosiynol a chlymau teuluol. Ymhellach, pan fo rhieni â phlant o dan 2 oed yn methu â chael gafael ar ofal plant ffurfiol, neu pan na fo'r gofal hwnnw ar gael yn llwyr, efallai eu bod yn dibynnu mwy ar ofal anffurfiol, yn enwedig gofal gan deidiau a neiniau (Biegel et al 2021).

Gan adeiladu ar y ddadl nad 'dewis i syrthio'n ôl arno' yn unig yw gofal plant anffurfiol, mae Gambaro et al (2024) yn nodi bod rhieni'n dal i ddibynnu ar ofal anffurfiol, hyd yn oed mewn cyd-destunau pan fo gwasanaethau gofal plant ffurfiol wedi ymestyn yn fawr, gan gyfuno gofal plant anffurfiol gyda gofal plant ffurfiol. Dangosodd eu hastudiaeth hydredol a gynhaliwyd yn yr Almaen fod dewisiadau o'r fath yn cael eu hysgogi gan y manteision unigryw sy'n perthyn i drefniadau anffurfiol, fel ymddiriedaeth a hyblygrwydd – sef nodweddion na all systemau ffurfiol eu darparu'n llwyr, o bosibl. Darganfuwyd ymatebion tebyg yn arolwg ansoddol Ferguson et al (2022) a gynhaliwyd yn yr Unol Daleithiau. Yn yr arolwg hwn, arolygwyd 123 o rieni a chanddynt blant 1 i 5 oed, gan archwilio'u prif ddewisiadau mewn perthynas â gofal plant. Darganfuwyd bod rhieni'n mynd ati'n aml i ddewis perthnasau i ddarparu gofal plant oherwydd y diogelwch a'r ymddiriedaeth a ddarperir ganddynt, a hefyd oherwydd y diogelwch emosiynol sydd ynghlwm wrth adael eu plant gyda "rhywun maen nhw'n ei adnabod".

Gwelwyd canfyddiadau tebyg yng Nghymru yn ymchwil Dallimore (2016). Yn y traethawd ymchwil ansoddol hwn, dengys Dallimore (2016) fod gofal plant anffurfiol yn fwyaf amlwg yn ystod y cyfnod cynharaf ym mywyd y plentyn – yn enwedig yn ystod y flwyddyn gyntaf. Gan ddefnyddio canfyddiadau a ddeilliodd o gyfweliadau gyda rhieni, darganfu Dallimore fod rhieni o'r farn bod eu plant yn fwyaf agored i niwed pan maent yn fabanod, ac nad oeddynt yn fodlon rhoi eu plant yn nwylo "dieithriaid", gan awgrymu bod natur 'gyfarwydd' gofal plant anffurfiol yn hollbwysig i benderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant cynnar. Mae'r canfyddiadau hyn yn cadarnhau'r syniad nad dewisiadau naïf mo dewisiadau ynglŷn â gofal plant anffurfiol ond eu bod, yn hytrach, yn ddewisiadau bwriadol a gwerthfawr a wneir er budd y plant.

Mae astudiaethau eraill hefyd wedi canfod bod teidiau a neiniau'n ddewis penodol ar gyfer darparu gofal plant anffurfiol, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae gwaith ymchwil trawsgenedlaethol a gynhaliwyd gan DiGessa et al (2016) yn dangos bod gofal gan deidiau a neiniau i'w weld yn fwyaf amlwg mewn cyd-destunau lle mae gofal plant ffurfiol yn gyfyngedig a lle mae'r mamau a'r neiniau'n cyfranogi i raddau llai yn y farchnad lafur. Daethpwyd i'r casgliad bod rhieni'n ffafrio gofal plant 'teuluol' mewn gwledydd lle nad yw'n arferol i famau weithio a lle mae opsiynau ar gyfer gofal plant ffurfiol yn brin. Awgryma hyn fod gofal plant anffurfiol mewn lleoliadau o'r fath yn ddewis a gaiff ei gadarnhau'n ddiwylliannol, yn ogystal ag yn anghenraid ymarferol. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd

ag astudiaeth Dallimore (2016) yng Nghymru; darganfu'r astudiaeth hon hefyd fod gofal anffurfiol yn tueddu i fod yn benderfyniad bwriadol a gwerthfawr, a'i fod yn cael ei lywio gan ymddiriedaeth, normau diwylliannol a chyfalaf cymdeithasol, yn hytrach na chan gyfyngiadau economaidd yn unig. Gyda'i gilydd, dengys yr astudiaethau hyn pa mor bwysig yw cydnabod bod gofal plant anffurfiol yn agwedd ddilys ar fywyd teuluol – ac yn agwedd a gaiff ei ffafrio, yn aml – yn enwedig mewn cyd-destunau lle mae systemau ffurfiol naill ai'n anhygyrch neu'n llai derbyniol yn ddiwylliannol.

Ond darganfu ymchwilwyr eraill fod teidiau a neiniau'n mynd ati'n benodol i gynnig gofal plant gan eu bod o'r farn y dylai plant, yn enwedig plant ifanc, gael eu magu gan y teulu er mwyn sicrhau y ffurfir clymau teuluol. Yn astudiaeth Airey et al (2020), cynhaliwyd cyfweliadau gyda 55 o deidiau a neiniau ledled Lloegr a'r Alban. Mae'r astudiaeth hon yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r hyn sy'n ysgogi teidiau a neiniau i gynnig gofal anffurfiol. Yn achos y teidiau a'r neiniau hyn, roedd y syniad o ddarparu gofal plant yn ddewis cadarnhaol a gwirfoddol a oedd wedi'i wreiddio mewn clymau emosiynol, gwerthoedd moesol ac ymdeimlad o gydgefnogaeth rhwng y cenedlaethau. Yn aml, dywedodd teidiau a neiniau fod cynnig gofalu am eu hwyrion a'u hwyresau yn estyniad naturiol o'u rôl deuluol, a dywedodd rhai ohonynt ei fod yn rhywbeth "naturiol" i'w wneud. Roedd yr agwedd ragweithiol hon i'w gweld yn amlwg iawn ymhlith teidiau a neiniau a oedd yn credu bod gofal teuluol yn well na gofal plant ffurfiol, yn enwedig ar gyfer plant ifanc iawn. Er bod yr astudiaeth yn canolbwyntio ar safbwyntiau teidiau a neiniau, mewn ffordd anuniongyrchol mae'n adlewyrchu hoffter rhieni o ofal anffurfiol, oherwydd dywedodd nifer o'r teidiau a'r neiniau fod y mamau/tadau yn teimlo'n gyfforddus yn gadael eu plant gydag aelodau teuluol dibynadwy. Yn ogystal â bod yn ateb ymarferol, awgryma'r canfyddiadau hyn fod gofal anffurfiol yn drefniant gwerthfawr mewn termau diwylliannol ac emosiynol, a'i fod yn cael ei lywio gan ddisgwyliadau a normau teuluol.

Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Rutigliano (2020) yn cryfhau'r pwynt hwn trwy ddangos bod gofal plant anffurfiol, yn enwedig gan deidiau a neiniau, yn hollbwysig o ran llywio penderfyniadau teuluoedd ynglŷn â gofal plentyndod cynnar. Trwy gynnal dadansoddiad 2 gam ar ddata'r Arolwg o Iechyd, Heneiddio ac Ymddeol yn Ewrop (SHARE), archwiliodd Rutigliano (2020) y modd y gwnaeth disgwyliadau'n ymwneud â gofal plant gan deidiau a neiniau ddylanwadu ar benderfyniadau mamau/tadau ynglŷn â'u plentyn cyntaf. Ar sail y dadansoddiad, gwelwyd bod mamau/tadau mewn nifer o wledydd yn Ewrop yn fwy tebygol o ddewis bod yn rhiant os oeddynt yn rhagweld y byddai teidiau/neiniau yn darparu gofal plant. Ond mewn gwledydd a oedd yn ffafrio dulliau traddodiadol – fel yr Eidal, lle mae gofal anffurfiol yn ddisgwyliedig ond lle mae gofal plant ffurfiol yn gyfyngedig – darganfuwyd y gall y ddynameg hon beri i bobl ohirio bod yn rhieni. Yn yr astudiaeth, nodir y gall pwysau cymdeithasol a gorddibyniaeth ar gymorth teuluol beri i bobl ohirio cael plant neu ymatal rhag cael plant yn gyfan gwbl. Er nad yw'r astudiaeth hon yn mynd ati'n uniongyrchol i archwilio dewisiadau teidiau a neiniau, mae'n dangos y gwerth ymddangosiadol sydd ynghlwm wrth ofal anffurfiol a'r dylanwad a gaiff ar benderfyniadau ffrwythlondeb, gan ategu pa mor ganolog yw cefnogaeth teidiau a neiniau mewn strategaethau plentyndod cynnar.

Ymhellach, mae ymchwil a gynhaliwyd gan Hutchinson (2019) yn pwysleisio bod gofal gan deidiau a neiniau yn cael ei gydnabod yn fwyfwy fel trefniant gwerthfawr a ffefrir, a'i fod yn

rhywbeth a gaiff ei lywio gan glymau emosiynol, ymddiriedaeth a chydgefnogaeth rhwng cenedlaethau. Yn ei hastudiaeth ansoddol o deidiau a neiniau o'r Alban a oedd yn gofalu am eu hwyrion/wyresau, darganfu Hutchinson (2019) fod gan deidiau a neiniau rôl ragweithiol o ran gwneud trefniadau i ofalu am eu hwyrion/wyresau, a bod y rôl honno'n cael ei hysgogi gan ddymuniad i adeiladu a meithrin eu teuluoedd cyfan, yn ogystal â chan anghenion ymarferol. Roedd ymddiriedaeth ac agosrwydd emosiynol yn gwbl ganolog, a soniodd y teidiau a'r neiniau am y llawenydd a ddôi i'w rhan yn sgil eu cydberthnasau dwyochrog gyda'u hwyrion/wyresau, a'r boddhad roeddynt yn ei deimlo gan fod y mamau/tadau yn ymddiried ynddynt. Drachefn, gellir cymharu hyn â chanfyddiadau Dallimore (2016), a ddarganfu fod gofal anffurfiol yng Nghymru yn ddewis bwriadol yn aml, gan godi uwchlaw anghenraid economaidd. Dywedodd fod proffwydoliaethau cryfach mewn perthynas â gofal anffurfiol yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â dangosyddion cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol yn hytrach na rhesymoledd economaidd, a bod rhieni'n mawrbrisio'r diogelwch emosiynol a'r parhad diwylliannol a gynigir gan ofalwyr teuluol.

Mae DiGessa et al (2016) yn ychwanegu dimensiwn strwythurol, gan ddangos bod gofal gan deidiau a neiniau i'w weld yn gyffredin mewn gwledydd lle mae gofal plant ffurfiol yn gyfyngedig, a'i fod, yn wir, wedi'i ymwreiddio yn y diwylliant. Deuir i'r casgliad bod hoffter o ofal plant teuluol yn gryf mewn cyd-destunau o'r fath, yn enwedig pan fo dewisiadau amgen ffurfiol yn brin neu'n llai derbyniol yn ddiwylliannol. Gyda'i gilydd, dengys yr astudiaethau hyn nad rhywbeth i 'syrthio'n ôl arno' yn unig yw gofal plant anffurfiol ond, yn hytrach, ei fod yn ddull perthynol a gaiff ei ffafrio'n aml – dull a ymwreiddir mewn ymddiriedaeth, hunaniaeth a chysylltiad rhwng cenedlaethau.

Yn olaf, mae astudiaethau eraill wedi dangos y gall cefndir diwylliannol a safle cymdeithasol lywio'r modd mae teuluoedd yn ymhél â gofal plant anffurfiol. Er enghraifft, darganfu Bordone et al (2020) fod teuluoedd Gwyn Prydeinig yn y DU yn fwy tebygol o ddibynnu ar deidiau a neiniau, a bod teuluoedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol [troednodyn 6] yn llai tebygol o wneud hynny, hyd yn oed pan fo ffactorau eraill (fel incwm ac agosrwydd) yn debyg. Awgryma hyn fod normau diwylliannol a phrofiadau mudo'n dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â gofal plant. Mewn cyferbyniad, darganfu Skattebol (2016) fod nifer o deuluoedd a ymyleiddiwyd a theuluoedd incwm isel yn Awstralia yn dewis gofal anffurfiol gan ei fod yn cynnig diogelwch emosiynol, cynefindra diwylliannol a chysylltiad cymunedol. Gyda'i gilydd, dengys yr astudiaethau hyn nad mynediad ymarferol at ofal plant anffurfiol yw'r unig elfen sy'n dylanwadu ar benderfyniadau; mae ymddiriedaeth, gwerthoedd ac ymdeimlad o berthyn diwylliannol yn hollbwysig hefyd.

---

Troednodiadau

[6] Defnyddir y term 'BME' yn Bordone et al (2020), gan adlewyrchu terminoleg yr awduron. Yn unol â'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol gan Lywodraeth Cymru, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r ymadrodd llawn "Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol" neu'r fersiwn fyrrach "ethnig leiafrifol".

# 4. Cyfyngiadau ac ymchwil yn y dyfodol

Er bod yr adolygiad cyflym hwn o'r dystiolaeth yn cynnig mewnwelediad thematig i'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau rhieni ynglŷn â gofal plant, rhaid ystyried nifer o gyfyngiadau.

Yn gyntaf, wrth chwilio trwy'r llenyddiaeth daethpwyd o hyd i gymysgedd o lenyddiaeth lwyd ac astudiaethau academaidd a adolygwyd gan gymheiriaid yn ymwneud â'r maes hwn. Roedd rhai ffynonellau'n cynnig mewnwelediad gwerthfawr i benderfyniadau rhieni a'r amryfal dirluniau cyd-destunol a oedd wrth wraidd y dewisiadau hynny; ond roedd eu tryloywder methodolegol yn ddiffygiol. Oherwydd hyn, ni chynhwyswyd canfyddiadau'r ffynonellau hynny yn yr adroddiad hwn.

Yn ail, canolbwyntiodd yr adolygiad ar y llenyddiaeth a gyhoeddwyd yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf. Mae'r cyfnod amser hwn yn cyd-fynd â chynllun adolygiad cyflym o dystiolaeth a hefyd mae'n sicrhau perthnasedd ag arferion a pholisïau cyfredol. Ond yn ôl pob tebyg, arweiniodd y cyfyngiad hwn at eithrio astudiaethau cynharach y gellid bod wedi'u defnyddio i gynnig safbwyntiau hanesyddol neu hydredol yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch gofal plant.

Yn drydydd, er bod yr adolygiad wedi rhoi blaenoriaeth i gyd-destun Cymru, cafodd nifer o'r astudiaethau a adolygwyd eu cynnal yng ngwledydd eraill y DU ac mewn gwledydd eraill ledled y byd. Er bod yr astudiaethau hyn wedi cynnig cymariaethau defnyddiol, yn ogystal â sefyllfaoedd cyfochrog hyd yn oed (er enghraifft, Hughes a Jones (2021) a Bosire, Daro, Gallagher a Caddell (2025)), mae gwahaniaethau o ran fframweithiau polisi, modelau cyllido a chyd-destunau diwylliannol yn cyfyngu ar eu perthnasedd uniongyrchol i'r tirlun gofal plant yng Nghymru.

Yn olaf, gwelir bod yr ystodau oedran yn y llenyddiaeth yn tueddu i fod yn ehangach na ffocws cychwynnol yr adolygiad. Roedd nifer o'r astudiaethau'n cynnwys plant 0 i 4 oed neu 0 i 5 oed, ac roedd rhai ohonynt yn ymdrin ag ystodau oedran ehangach fyth hyd yn oed, megis 0 i 15 oed. Oherwydd hyn, bu'n rhaid mynd trwy'r astudiaethau â chrib mân er mwyn dod o hyd i wybodaeth a oedd yn ymwneud yn benodol â'r oedran o dan sylw, os oedd gwybodaeth o'r fath ar gael. Mewn ambell achos, nid oedd y data wedi'i ddadgyfuno yn ôl oedran, ac efallai fod hyn wedi effeithio ar fanwl gywirdeb a pherthnasedd y casgliadau.

Mae'r cyfyngiadau hyn yn adlewyrchu'r cyfyngiadau sy'n perthyn i'r sylfaen dystiolaeth ac i fethodoleg yr adolygiad cyflym. Serch hynny, mae'r canfyddiadau thematig yn cynnig sylfaen ar gyfer deall y ffactorau hollbwysig sy'n llywio penderfyniadau rhieni ac ar gyfer pennu meysydd y gellir ymchwilio iddynt yn y dyfodol. Dylai gwaith ymchwil yn y dyfodol archwilio sut mae rhieni yng Nghymru yn llywio trwy'r themâu hyn, yn enwedig mewn perthynas â hawliau newydd a darpariaethau dwyieithog (Cymraeg 2050 a darpariaeth ehangach Dechrau'n Deg). Hefyd, byddai astudiaethau mwy penodol lle canolbwyntir ar blant rhwng 9 mis a 2 oed yn helpu i egluro sut y caiff penderfyniadau ynglŷn â gofal plant cynnar eu gwneud, a sut y gall polisïau gynorthwyo teuluoedd yn well yn ystod y cam hwn.

# 5. Casgliadau

Mae'r adolygiad cyflym hwn o'r dystiolaeth yn syntheseiddio ymchwil gyfredol sy'n deillio o'r DU a ledled y byd – hynny yw, ymchwil yn ymwneud â'r ffactorau sy'n llywio penderfyniadau rhieni ynglŷn â defnyddio gofal plant ffurfiol ar gyfer plant rhwng 9 mis a 2 oed. Er bod y sylfaen dystiolaeth yn amrywio o ran cwmpas a chryfder methodolegol, daeth nifer o themâu cyson i'r amlwg yn y llenyddiaeth a adolygwyd. O blith y themâu hyn, gwelir mai mynediad ac argaeledd yw'r ffactorau mwyaf arwyddocaol a chryfaf eu tystiolaeth, ac mae amryfal astudiaethau'n dangos y modd mae darpariaeth gyfyngedig, cyfyngiadau o ran oedran, a chymhlethdod gweinyddol yn cyfyngu ar ddewisiadau rhieni. Rhoddir lle amlwg hefyd i themâu hollbwysig eraill, megis fforddiadwyedd, manteision datblygiadol ymddangosiadol, ymddiriedaeth a chydweddiad diwylliannol, a hoffter o ofal anffurfiol.

Dengys y canfyddiadau hyn mai pur anaml y caiff penderfyniadau rhieni eu llywio gan un ffactor yn unig. Yn hytrach, maent yn adlewyrchu rhyngweithio cymhleth rhwng cyfyngiadau strwythurol ac ystyriaethau perthynol. Er enghraifft, yn aml mae fforddiadwyedd a hygyrchedd gofal plant yn elfennau sy'n gwau trwy'i gilydd, hyd yn oed pan fo gofal plant ar gael, oherwydd mae'r gost uchel yn golygu na all rhai teuluoedd ei fforddio. Ceir rhyngweithio hefyd rhwng hygyrchedd a gwerthoedd rhieni, oherwydd hyd yn oed pan fo gofal plant ffurfiol ar gael i rieni a theuluoedd, gwelir bod gwerthoedd rhieni a'u hymddiriedaeth mewn darpariaethau gofal plant ffurfiol yn gallu bod yn drech nag argaeledd.

Yn bwysig ddigon, mae'r adolygiad hwn yn dangos nad rhwystrau logistaidd yn unig sy'n atal rhieni rhag defnyddio gofal plant ffurfiol; ceir rhwystrau emosiynol a rhwystrau o ran gwybodaeth hefyd. Yn aml, mae rhieni'n sôn am ddryswch ynghylch a ydynt yn gymwys i gael gofal plant ffurfiol, a sonnir hefyd am gyfathrebu anghyson a phrosesau ymgeisio beichus. Mae'r materion hyn yn arbennig o amlwg ymhlith teuluoedd difreintiedig sy'n wynebu heriau ychwanegol fel allgáu digidol, rhwystrau ieithyddol a rhwydweithiau cymdeithasol cyfyngedig. Mewn achosion o'r fath, efallai mai gofal anffurfiol (yn enwedig gofal gan deidiau a neiniau) yw'r dewis a ffefrir – nid yn unig oherwydd hwylustod, ond gan ei fod yn cynnig diogelwch emosiynol a chan ei fod yn cyd-fynd â gwerthoedd teuluol.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod angen gwneud mwy nag ehangu'r ddarpariaeth os ydym am wella mynediad at ofal plant ffurfiol. Mae angen rhoi sylw i'r modd y llunnir systemau, yn cynnwys symleiddio prosesau gweinyddol, egluro hawliau i ofal plant a ariennir, a sicrhau amgylcheddau sy'n ymatebol yn ddiwylliannol ac sy'n gefnogol yn emosiynol. Heb y gwelliannau hyn, bydd penderfyniadau ynglŷn â sut a phryd i ddefnyddio gofal plant ffurfiol yn parhau i gael eu llywio gan gyfyngiadau mwy systemig yn hytrach na chan ddewis rhieni.

# 6. Adran cyfeirnod


Airey, L., Lain, D., Jandrić, J. a Loretto, W. (2020). ‘A selfish generation? ‘Baby boomers’, values, and the provision of childcare for grandchildren’, The Sociological Review, Cyfrol 69, Rhifyn 4, tudalennau 812 i 829.

Anderson, E.S., Jackson, A., Wailoo, M.P. a Peterson, S.A. (2002). ‘Childcare decisions: parental choice or chance?’, Childcare Health and Development, Cyfrol 28, Rhifyn 5, tudalennau 391 i 401.

Arad Research (2021). 'Adolygiad o’r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni mewn addysg, hyfforddiant, neu wrth ddychwelyd i’r gwaith', Caerdydd: Llywodraeth Cymru (Cyrchwyd ar 26 Gorffennaf 2025).

Benison, T. a Sin, I. (2023). ‘The wage cost of a lack of access to affordable childcare in Aotearoa New Zealand’, New Zealand Economic Papers, Cyfrol 58, Rhifyn 1, tudalennau. 40 i 73.

Berlinski, s., Ferreyra, M.M., Flabbi, L. a Martin, J.D. (2020). ‘Child Care Markets, Parental Labor Supply, and Child Development’ (Cyrchwyd ar 30 Gorffennaf 2025).

Biegel, N., Neels, K. a Van den Berg, L. (2021). ‘Uptake of childcare arrangements—Grandparental availability and availability of formal childcare’, Social Sciences, Cyfrol 10, Rhifyn 2.

Bordone, V., Evandrou, M. a Vlachantoni, A. (2020). ‘Ethnicity and grandparental child care in the United Kingdom’, Ageing and Society, Cyfrol 40, Rhifyn 4, tudalennau 713 i 734.

Bosire, J.P., Daro, A.M., Gallagher, K.C. a Caddell, K.D. (2025). ‘Expanding the childcare table of influence: Reaching under-resourced families to understand their needs and barriers to accessing early childhood care and education’, Children and Youth Services Review, Cyfrol 168, Erthygl 108056.

Bouchard, I., Cheung, L. a Pacheco, G. (2021). ‘Evaluating the impact of 20 hours free early childhood education on mothers' labour force participation and earnings’, New Zealand Economic Papers, Cyfrol 55, Rhifyn 2, tudalennau 188 i 202 (Cyrchwyd ar 2 Gorffennaf 2025).

Brewer, M., Cattan, S., Crawford, C. a Rabe, B. (2022). ‘Does more free childcare help parents work more?’, Labour Economics, Cyfrol 74, Erthygl 102100.

Bucelli, I. a McKnight, A. (2022). ‘Poverty and social exclusion: review of international evidence on early childhood education and care’ (Cyrchwyd ar 26 Mehefin 2025).

Chadwick, T., Chidley, S., Jones, H. a Husain, F. (2018). ‘Low and middle-income parents’ understanding of childcare entitlements: A qualitative study’ (Cyrchwyd ar 27 Mehefin 2025).

Chapman, A., a Fitzpatrick, C. (2025). 'Northern Ireland Childcare Strategy: A Work in Progress?', Social Policy and Society, tudalennau 1 i 14.

Chen, H. a Bradbury, A. (2019). 'Parental choice of childcare in England: Choosing in phases and the split market', British Educational Research Journal, Cyfrol 46, Rhifyn 2, tudalennau 281 i 300 (Cyrchwyd ar 2 Gorffennaf 2025).

Collischon, M., Kuehnle, D., ac Oberfichtner, M. (2024) 'Who Benefits from Cash-for-Care? Effects of a Home Care Subsidy on Maternal Employment, Childcare Choices, and Children's Development', Journal of Human Resources, Cyfrol 59, Rhifyn 4, tudalennau 1011 i 1051.

Crossfield, J., Zatterin, G. a Berkley, M. (2023). 'Childcare in England: parental motivations for use, decision-making and perceptions of quality - A qualitative study' (Cyrchwyd ar 26 Mehefin 2025).

Dallimore, D. (2016). 'Informal Childcare and Childcare Choice in Wales' (Cyrchwyd ar 26 Mehefin 2025).

Degotardi, S., Sweller, N., Fenech., M. a Beath, A. (2018). 'Influences on parents' childcare choices: A comparative analysis of preschool and long day care users', Child & Youth Care Forum, Cyfrol 47, tudalennau 683 i 700.

Yr Adran Addysg (2024). 'Childcare and Early Years Survey of Parents: Reporting year 2023' (Cyrchwyd ar 30 Gorffennaf 2025).

Yr Adran Addysg (2025). 'Childcare and early years survey of parents: Reporting year 2024' (Cyrchwyd ar 30 Gorffennaf 2025).

Di Gessa, G., Glaser, K., Price, D., Ribe, E. a Tinker, A. (20160. 'What Drives National Differences in Intensive Grandparental Childcare in Europe?', The Journals of Gerontology: Cyfres B, Cyfrol 71, Rhifyn 1, tudalennau 141 i 153.

Doorley K, Tuda D, McTague A, Regan M (2023), 'Childcare in Ireland: Usage, Affordability and Incentives to Work', Economic and Social Review, Cyfrol 54, Rhifyn 4, tudalennau 247 i 283.

Etherington, D., Gray, M., a Buckner, L. (2025). 'Still Digging Deeper: The Impact of Austerity on Inequalities and Deprivation in the Coalfield Areas' (Cyrchwyd ar 30 Gorffennaf 2025).

Ferguson. J., Lampkins, C., Moody, B. a Shpancer, N. (2022). 'Careful Choices: Parents Reflect on their Childcare Decisions', Child Care in Practice, Cyfrol 28, Rhifyn, 3, tudalennau 368 i 380.

Gambaro, L., Schäper, C. a Spiess, C.K. (2024). 'Crowded-out? Changes in informal childcare during the expansion of formal services in Germany', Social Policy and Administration, Cyfrol 59, Rhifyn 3, tudalennau 383 i 398.

Garritty, C., Gartlehner, G., Nussbaumer-Streit, B., King, V. J., Hamel, C., Kamel, C., Affengruber, L. a Stevens, A. (2021). 'Cochrane Rapid Reviews Methods Group offers evidence-informed guidance to conduct rapid reviews', Journal of Clinical Epidemiology, Cyfrol 130, tudalennau 13 i 22.

Hamel, C., Michaud, A., Thuku, M., Skidmore, B., Stevens, A., Nussbaumer-Streit, B. a Garritty, C. (2021). 'Defining rapid reviews: a systematic scoping review and thematic analysis of definitions and defining characteristics of rapid reviews', Journal of Clinical Epidemiology, Cyfrol 129, tudalennau 74 i 85.

Trysorlys Ei Fawrhydi. (2020). 'The Magenta Book: Central Government guidance on evaluation' (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2025).

Hughes, B. a Jones, K. (2021). 'Y Ganolfan Cynllunio Iaith: Astudiaeth ansoddol o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy'n effeithio penderfyniadau rhieni o ran gofal plant ac addysg gynnar' Caerdydd: Llywodraeth Cymru (Cyrchwyd ar 26 Gorffennaf 2025).

Hutchinson, J.C. (2019). 'Learning for Life Through Building Families: Grandparents' Care for Babies and Toddlers in Scotland' (Cyrchwyd ar 2 Gorffennaf 2025).

La Valle, I., Lewis, J., Crawford, C., Hodges, L., Castellanos, P., ac Outhwaite, L. (2024). 'Early education for disadvantaged children: How local action can support take-up of the 15 hours entitlement' (Cyrchwyd ar 30 Gorffennaf 2025).

Lane, J. a Lewis, S. (2023). 'Trosolwg o'r themâu allweddol yn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022 i 2027', Caerdydd: Llywodraeth Cymru (Cyrchwyd ar 30 Gorffennaf 2025).

Maes, J., Neels, K., Biegel, N. a Wood, J. (2023). 'Uptake of formal childcare among second generation and native mothers in Belgium: can increasing local childcare availability narrow migrant-native gaps?', Journal of Population Sciences, Cyfrol 79, Rhifyn 7.

McLean, C., Naumann, I. a Koslowski, A. (2017). 'Access to Childcare in Europe: Parents' Logistical Challenges in Cross-national Perspective', Social Policy & Administration, Cyfrol 51, Rhifyn 7, tudalennau 1367 i 1385 (Cyrchwyd ar 2 Gorffennaf 2025).

Mendizabal-Espinosa, R., Bonhote, K., Ko, S.Y a Dickson, K. (2024). 'Increasing Access to Childcare for Ethnic Minority and Disadvantaged Communities: A Rapid Evidence Review' (Cyrchwyd ar 26 Mehefin 2025).

Mhic Mhathúna, M. a Nic Fhionnlaoich, F. (2021) 'Why parents chose to send their children to Irish-medium immersion preschools: Learning from parental choice strategies in Celtic countries', European Early Childhood Education Research Journal, Cyfrol 29, Rhifyn 3, tudalennau 441 i 454.

Mollidor, C., Mason, E. a Zatterin, G. (2022). 'Childcare in England: Parental perceptions of availability, flexibility and affordability: A qualitative study' (Cyrchwyd ar 26 Mehefin 2025).

Mumford, K., A., Pena-Boquete, Y. a Parera-Nicolau, A. (2020). 'Labour supply and childcare: Allowing both parents to choose', Oxford Bulletin of Economics and Statistics, Cyfrol 82, Rhifyn 3, tudalennau 577 i 602.

Ni Luanaigh, A., Agur, M., Webb, C., Woods, D. a Harvey-Rich, S, (2024). 'Ymchwil am Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant i Gymru: adroddiad terfynol', Caerdydd: Llywodraeth Cymru (Cyrchwyd ar 30 Gorffennaf 2025).

Outhwaite, L., La Valle, I. a Crawford, C. (2023). 'Briefing Note: Who uses government-funded early education in England, and what explains the variation in take-up?' (Cyrchwyd ar 26 Mehefin 2025).

Pungello, E.P. a Kurtz-Costes, B. (1999). 'Why and how working women choose childcare: a review with a focus on infancy', Developmental Review, Cyfrol 19, Rhifyn 1, tudalennau 31 i 96.

Rutigliano, R. (2020). 'Counting on Potential Grandparents? Adult Children's Entry Into Parenthood Across European Countries', Demography, Cyfrol 57, Rhifyn 4, tudalennau 1393 i 1414.

Simon, A., Owen, C. a Hollingworth, K. (2017). 'Is Targeting Formal Childcare the Best Way to Meet the Needs of Families in Britain?', American Journal of Educational Research, Cyfrol 5, Rhifyn 7, tudalennau 794 i 800.

Skattebol, J. (2016). 'Taking advantage of early childhood education and care: the priorities of low-income families in their children's early years', Families, Relationships and Societies, Cyfrol 5, Rhifyn 1, tudalennau 109 i 125.

Sollars, V. (2016). 'Parents' expectations about early years services', Early Years, Cyfrol 37, Rhifyn 3, tudalennau 285 i 299.

Wheelock, J. a Jones, K. (2002). 'Grandparents are the next best thing: informal childcare for working parents in urban Britain', Journal of Social Policy, Cyfrol 31, Rhifyn 3, tudalennau 441 i 463.

White-Tennant, G. (2021). 'Disturbed by the Dissonance: A Phenomenological Study of Family, Friend, and Neighbor Care', Traethawd doethurol. Coleg Athrawon, Prifysgol Columbia.

Wilson-Smith, E., Skellington, Orr, K. a Barry, M. (2022). 'Decisions influencing early learning and childcare use: understanding social policies and social contexts'. Llywodraeth yr Alban (Cyrchwyd ar 26 Mehefin 2025).

Zangger, C. a Widmer, J. (2020). 'Choosing what is best for one's children? Experimental evidence on parents' responsiveness to childcare subsidies and their preferences for different childcare arrangements', Early Childhood Research Quarterly, Cyfrol 51, tudalennau 110 i 123.